



Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ffocws ar Deithwyr 2005-2006

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ffocws ar Deithwyr 2005-2006

Y Gwir Anrh. Douglas Alexander AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth
Yr Adran Drafnidiaeth
Great Minster House
76 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DR

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Mae'n bleser gennyf amgáu'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2005-06 gan y Cyngor Teithwyr Rheilffordd (sy'n gweithredu dan enw Ffocws ar Deithwyr ('Passenger Focus'), fel y gofynnwyd o dan Atodlen 5 Deddf Rheilffyrdd 2005.

Yn gywir



Colin Foxall CBE
Cadeirydd

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ffocws ar Deithwyr¹ yw'r corff gwarchod cenedlaethol annibynnol ar gyfer y rheilffyrdd. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran Drafnidiaeth.

Ein cenhadaeth yw cael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd ym Mhrydain. Mae gennym ddau brif nod; dylanwadu ar benderfyniadau tymor hir a byr dymor fel ei gilydd a hefyd ar faterion sy'n effeithio ar deithwyr, a helpu teithwyr drwy gyngor, eiriolaeth a thrwy eu grymuso.

Gyda phwyslais cryf ar ymgyrchu ar sail tystiolaeth ac ymchwil, rydym yn sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd ar y tir. Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau ar ran teithwyr rheilffordd ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant rheilffordd, grwpiau teithwyr eraill a'r Llywodraeth er mwyn gwella safonau teithio.

¹ Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd. Bu Deddf Rheilffyrdd 2005 yn darparu ar gyfer dileu'r Pwyllgorau Teithwyr Rheilffordd rhanbarthol a'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd cenedlaethol gynt a daeth y CTRh newydd i fodolaeth ar 24 Gorffennaf 2005. Lanswyd yr enw a'r hunaniaeth ar gyfer Ffocws ar Deithwyr ar 25 Ionawr 2006. At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir at yr holl weithgareddau yr ymgymeryd â hwy rhwng 24 Gorffennaf 2005 a 31 Mawrth 2006 o dan enw Ffocws ar Deithwyr.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod y diwydiant rheilffordd a'r Llywodraeth bob amser yn

'rhoi teithwyr rheilffordd yn gyntaf'

Cyflawnir hyn drwy ein cenhadaeth, sef

'cael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd'

Dros y tair blynedd nesaf, caiff ein gwaith ei seilio ar y pum amcan canlynol, sy'n ategu'r weledigaeth a'r genhadaeth

1. deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd
2. sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd
3. grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth
4. dylanwadu ar y prif benderfyniadau tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd
5. bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd a budd-deiliaid

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r hyn y bwriadwn ei wneud tan 2009 ac mae ar gael ar ein gwefan ar www.passengerfocus.org.uk <<http://www.passengerfocus.org.uk>> neu gellir gofyn amdano gan ddefnyddio'r manylion ar gefn y ddogfen hon.

Ein gwerthoedd

Er mwyn bod yn ddylanwadol a chael y ddêl orau i deithwyr rheilffordd, bydd rhaid i ni weithio mewn ffyrdd arbennig. Bydd rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael ein cydnabod am fod yn flaengar, yn rhagweithiol, yn alluogol ac yn flaenllaw, er mwyn dwyn ffrwyth i deithwyr rheilffordd.

Dangosir hyn drwy ein pedwar gwerth craidd, sef

- **annibyndod** – byddwn yn ddiuedd, yn wrthrychol ac yn deg wrth ymgymryd â phob un o'n gweithgareddau
- **agoredrwydd** – byddwn yn hygyrch, yn gaffaeladwy, yn dryloyw ac yn groesawgar i deithwyr rheilffordd
- **ymddiriedaeth** – er mwyn bod yn ddylanwadol, byddwn yn dangos ein bod yn barchus, yn wybodus ac yn gredadwy. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio tystiolaeth ac ymchwil i gefnogi polisi
- **ymgysylltu** – er mwyn ymgyrchu a lobïo dros newidiadau, byddwn yn dangos ein bod yn gwrandao ar deithwyr rheilffordd a budd-deiliaid eraill, ein bod yn eu deall ac yn ymateb iddynt. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r prosiectau ymchwil ac ymgynghori amrywiol y byddwn yn ymgymryd â hwy.

Cynnwys

1. Cyflwyniad y Cadeirydd

2. Arolwg o weithgareddau 2005-6

2.1 Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffordd

2.2 Sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd

2.3 Grymuso teithwyr rheilffordd gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth

2.4 Dylanwadu ar y prif benderfyniadau tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr rheilffordd

2.5 Bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffordd

3. Atodiadau

3.1 Atodiad un – adroddiad y Prif Weithredwr

3.2 Atodiad dau – bywgraffiadau aelodau bwrdd Ffocws ar Deithwyr

3.3 Atodiad tri - staff

3.4 Atodiad pedwar – rhestr o'r holl gyhoeddiadau, 2005-6

3.5 Atodiad pump – rhestr o ymgynghoriadau yr ymatebwyd iddynt 2005-6

3.6 Atodiad chwech – sylwadau'r rheolwyr

Adroddiad Taliadau ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2006

Datganiad cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Tystysgrif y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyfrif Incwm a Gwariant

Mantolen ar 31 Mawrth 2006

Datganiad Llif Arian

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Cyflwyniad y Cadeirydd

Rhoi teithwyr rheilffordd yn gyntaf

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Ffocws ar Deithwyr, sy'n gosod allan wyth mis o weithgarwch. Fe'm sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2005 i weithredu fel llais newydd bob teithiwr rheilffordd ym Mhrydain. Mae creu sefydliad newydd bob amser yn gyffrous ac yn her, ond yn hyn o beth, roeddem yn ymwybodol iawn bod gennym gyfle sylweddol i roi teithwyr wrth wraidd y rheilffyrdd. Mae gan y rheilffyrdd ym Mhrydain hanes hir o gynrychiolaeth i deithwyr ond yn aml mae wedi bod fel petai'r rheilffyrdd yn cael eu rhedeg ar gyfer y rhai sy'n eu gweithredu. Roeddem yn benderfynol o weld hynny'n newid. Felly mabwysiadom deitl 'Ffocws ar Deithwyr/Passenger Focus' oherwydd ei fod yn dweud yr hyn yr ydym am ei wneud - a'r hyn yr ydym am i'r diwydiant rheilffordd a'r llywodraeth ei wneud hefyd. Ac oherwydd yr ydym am iddynt roi teithwyr rheilffordd yn gyntaf, rhoesom y geiriau hynny wrth ochr ein henw.

O'r dechrau cyntaf mae ein bwrdd wedi bod yn benderfynol o ofyn i deithwyr pa brofiadau sydd ganddynt, beth sydd ei angen arnynt, a beth maent yn ei ddisgwyl gan eu rheilffyrdd. Rydym wedi ymroi i ymagwedd sy'n seiliedig ar ymchwil, ac i ymateb i'r hyn y dywed wrthym yn hytrach na'r doethineb cyffredin sy'n cael ei gynrychioli weithiau fel barn defnyddwyr. Os byddwn yn bwriadu argyhoeddi'r Llywodraeth a'r diwydiant rheilffordd i ddilyn ein cyngor, yna bydd rhaid i'n dadleuon fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil cadarn. Byddwn yn canolbwyntio ar y materion lle gallwn wneud gwir wahaniaeth.

Rydym wedi sefydlu ein hunain ar yr egwyddor o fod yn sefydliad i ddefnyddwyr - wrth gwrs rydym yn cefnogi'r rheilffyrdd, ond nid ydym yma i gynrychioli'r diwydiant rheilffordd nac i gynig cyngor ar sut i redeg rheilffordd. Rydym yma i ddadlau dros y teithiwr - a'r hyn sydd ei agen ar deithiwr gan wasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu'n breifat.

Mae deuddeg rheolwr cyswllt teithwyr sy'n byw ac yn gweithio o gwmpas Prydain yn rhoi ein dylanwad rhanbarthol inni. Roedd y tîm cyfan ar waith erbyn 30 Ionawr 2006. Maent yn gwybod beth yw gwir brofiad teithwyr y cwmnïau trên ac mae ganddynt lygad graff am gyfleoedd i newid pethau. Rydym wedi gosod targed uchelgeisiol o gael o leiaf 100 o welliannau ar gyfer teithwyr sy'n deillio o fentrau lleol bob blwyddyn i ddangos ein hymroddiad i newid pethau ar y tir.

Beth mae teithwyr yn ei ddweud?

Felly beth mae teithwyr wedi ei ddweud wrthym? Ar y cyfan, mae'n glir bod teithwyr, yn gyffredinol, yn fodlon ar eu teithiau - dywedwyd hynny wrthym gan bedwar allan o bump yn yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, yr arolwg teithwyr rheilffordd rheolaidd mwyaf yn Ewrop, yr ydym yn ei redeg ar ran yr Adran Drafnidiaeth. Fodd bynnag, mae'r ffigurau cyffredinol hyn yn cuddio amrywiadau mawr mewn gwahanol ranbarthau ac mewn gwahanol lwybrau ac maent hefyd yn cuddio problemau gwirioneddol i'r diwydiant. Mae bob amser yn anodd cyffredinoli ar rywbeth sy'n dal i fod yn brofiad unigol iawn - cysur bach yw dysgu bod y rhan fwyaf o deithwyr yn ddigon hapus pan fyddant yn colli cysylltiad o funudau, cael eu dal ar drên byr ei ffurf, mewn gorsaf ddiflas neu pan ddywedir wrthynt fod cwota o docynnau rhad wedi'i werthu i gyd.

Gwerth am arian yw'r man gwan amlwg wrth i fesurau bodlondeb ar gyfer yr agwedd hon ar deithio'n llusgo ar ôl agweddau eraill. Mae gwybodaeth ar gostau teithio ar gyfer teithiau hirach yn mynd yn fwy dryslyd byth. Os byddwch yn deall y system ac yn gallu treulio amser yn chwilota, gellir cael bargeinion da. Fodd bynnag, i rywun nad yw'n gyfarwydd â'r rheilffyrdd,

mae'r 'jyngl jargon' yn mynd yn waeth bob munud. Rydym yn deall bod rhaid cael cydbwysedd rhwng dewis a chymhlethdod ond bydd yn ddiddorol gweld pa gwmni a all osod meincnod y diwydiant ar gyfer gwybodaeth glir am docynnau.

O ganlyniad yr hyn mae teithwyr wedi'i ddweud wrthym, rydym wedi lansio trafodaeth ar ddyfodol costau teithio a thocynnau. Cynhaliom gynhadledd gyhoeddus i drafod y materion a'r dystiolaeth o gam cyntaf darn mawr o ymchwil teithwyr. Wrth i'r flwyddyn hon ddod i ben, mae ein casgliadau cyntaf yn dangos bod teithwyr yn meddwl bod y system gostau teithio yn rhy gymhleth. Mae'n debyg nad yw rhai a allai ddefnyddio tocynnau tymor yn deall faint o arian y gallent ei arbed drwy wneud hynny, neu, os ydynt yn ei ddeall, nid ydynt yn gallu fforddio eu prynu. Mae rhai yn poeni a ydynt wedi prynu tocyn sy'n ddrutach nag oedd ei angen arnynt. Mae hyn oll yn dangos bod angen arnom fanylion gwell am gostau teithio, o leiaf - a chostau teithio symlach. A thra ei bod yn ymddangos bod rhai yn gwybod sut i ddefnyddio'r system gostau teithio i gael y ddêl orau drwy brynu ymlaen llaw, rydym yn gwybod bod teithwyr, ar y cyfan, am gael rheilffordd maent yn gallu penderfynu ei defnyddio heb brynu tocynnau ymlaen llaw, a lle gallant gael tocynnau fforddiadwy o hyd.

Mae'r system docynnau yn pennu pa fath o reilffordd rydym yn mynd i'w chael. Byddai rheilffordd lle gellir bwcio ymlaen llaw yn debygol o ddenu gwahanol fath o deithiwr. Os bydd hi'n ddrud teithio ar y diwrnod ei hun - ar y lefelau hynod gostus rydym yn eu gweld ar hyn o bryd ar gyfer teithiau yn y cyfnod brig - bydd rhai'n ei chael hi'n rhy ddrud teithio ar y rheilffordd ar fyr-rybudd. Ar y llaw arall, os mai bwcio ymlaen llaw fydd y brif ffordd o werthu tocynnau, efallai bydd teithio hyblyg yn dod yn ddeniadol i'r rhai nad ydynt yn meddwl bod teithio ar y rheilffordd yn cynnig gwerth am arian ar hyn o bryd, ond efallai y byddai'n disodli pobl eraill sy'n gwerthfawrogi hyblygrwydd. Dyma drafodaeth allweddol y dylid ei chael - rhaid i ni beidio â rhuthro'n fyrbwyll i reilffordd sydd â thocynnau lle gellir bwcio tocynnau rhad ymlaen llaw yn unig, a lle ceir tocynnau ar y trê'n am grocbris. Mae mynediad i bawb yn fwy na mantra - dyma wasanaeth cyhoeddus.

Yr her i deithwyr

Pan oedd y rheilffordd yn perfformio'n wael, roedd yr her yn ddigon clir. Yn gyffredinol, mae trenau'n rhedeg yn fwy dibynadwy ac yn fwy prydlon nag y maent ers blynyddoedd a'r perygl yw bod rhai pobl yn teimlo bod y rheilffyrdd wedi'u 'trwsio'. Tra nad oedd elfennau craidd perfformiad yn cael eu cyflawni, gwrthdynnwyd sylw teithwyr. O hyn ymlaen, mae bodloni blaenoriaethau teithwyr yn gofyn cwestiynau newydd - ac mewn rhai ffyrdd, anoddach - i'w hateb.

Dyma'n 'rhestr siopa' o gwestiynau, yn seiliedig ar yr hyn y mae teithwyr yn ei ddweud wrthym. Byddwn yn ceisio cael atebion iddynt eleni; y mae angen i'r Llywodraeth a'r diwydiant fynd i afael â hwy.

Prydlondeb

Mae ymchwil yn dangos mai perfformiad yw blaenoriaeth gyntaf teithwyr o hyd o ran gwelliannau. Ystyrir bod pedwar trê'n allan o bump yn brydlon (o fewn pump neu ddeng munud) ond mae hynny'n meddwl bod bron i ddau drê'n ym mhob deg yn rhedeg yn hwyr. Mae trenau hwyr yn golygu miliynau o apwyntiadau colledig, straen, rhwystredigaeth, ac anghyfleustra i deithwyr. Felly pryd allwn ddisgwyl i hynny wella neu a fydd yn aros fel y mae oherwydd ei bod hi'n rhy anodd cynyddu capasiti er mwyn gwneud i fwy o drenau redeg mewn pryd?

Cael sedd

Mae teithio ar y rheilffordd yn dod yn fwy poblogaidd, mae gorlwytho yn broblem yn barod, ac mae cynlluniau i wella capasiti. Ond a fydd hyn yn ddigon ac a geir addewid i beidio â defnyddio costau teithio fel modd i ddogni'r galw?

Gwybodaeth?

Yn aml, mae dod o hyd i wybodaeth am ddefnyddio'r rheilffyrdd yn digwydd bod yn waith caled, yn enwedig pan fydd problemau. Onid allwn wneud yn well eleni ac ymroi i gyfathrebu a darparu gwybodaeth gliriach am gostau teithio a theithiau?

Rheilffordd i'r penwythnos

Mae'n wych bod mwy o'r isadeiledd yn cael ei drwsio, ond mae perygl y bydd rhannau o'r rheilffordd ond yn rhedeg am bum niwrnod yr wythnos oherwydd y gwaith peirianeg sydd ar y gweill. Bydd rhaid i'r rheilffordd ddelio ag effaith gwaith peirianeg yn well. A pham mae teithwyr yn talu am drên ac yn troi lan i gael gwybod yn bod yn cymryd bws yn ei le? Mae'n siŵr y dylid cynnig gostyngiad ar docynnau neu o leiaf ddarparu talebau ar gyfer teithio yn y dyfodol.

Dal i aros

Dywedodd teithwyr wrthym nad ydynt yn fodlon ar lawer o orsafoedd – maent yn lleoedd brwnt, yn aflêr, ac yn annymunol. Dro ar ôl tro, mae teithwyr yn dweud wrthym eu bod am weld rhagor o staff. Mae parcio ceir, sy'n fater o bwys yn barod i sawl grŵp o deithwyr, yn mynd yn fwy o broblem byth i bobl sy'n defnyddio'r rheilffordd ar gyfer teithiau hir. A fydd strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer gwneud i orsafoedd yn lleoedd derbynol i aros am drên, ac a fyddai'n bosibl i ni roi gofal amdanynt i gyd i un person?

Beth nesaf?

Tybiaf fod disgwyliadau teithwyr wedi'u malu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wrth i berfformiad mwy boddhaol gael ei gyflawni, bydd disgwyliadau teithwyr yn dechrau codi, wrth reswm. Meddyliaf y bydd teithwyr yn gofyn llawer mwy gan bob agwedd ar y diwydiant. Bydd Ffocws ar Deithwyr ar flaen y gad llethol hwnnw. Mae bwrdd a staff Ffocws ar Deithwyr wedi gwneud gwaith da iawn wrth sefydlu'r sefydliad hwn a'i yrru ymlaen. Diolch i chi. Y flwyddyn nesaf, bydd rhaid inni gyflawni ar ran teithwyr a hynny'n gyhoeddus.



Colin Foxall
Cadeirydd

Arolwg o weithgareddau 2005-6

Deall anghenion a phrofiad teithwyr rheilffordd

AMCAN UN

Ein nodau

- ymgymryd ag Arolwg Teithwyr Cenedlaethol ar gyfer Hydref 2005 (ATC) a'i gyhoeddi
- ymgymryd â'r ymchwil ar gyfer Gwanwyn 2006 (wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2006).
- adolygu'r fanyldeb ar gyfer yr ATC, gan sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben, a gweithredu argymhellion
- sefydlu Grŵp Cynghori Budd-deiliaid ATC
- ymgymryd â nifer fach o brosiectau ymchwil ar raddfa fawr
- datblygu ystod o sianeli ar gyfer cael barn a safbwyntiau teithwyr rheilffordd
- ennyn diddordeb teithwyr eraill yng ngwaith Ffocws ar Deithwyr drwy ymgynghori a gweithgareddau eraill.

Yr hyn a wnaethom

- ymgymeryd â'r holl weithgareddau ATC
- ymgymeryd â phrosiectau ymchwil, neu fe'u dechreuwyd ar y canlynol:
 - ymchwil mesurol ac anossodol ar gostau teithio
 - blaenoriaethau teithwyr ar wahanol lwybrau Central Trains (i roi gwybodaeth i'r broses ail-fapio masnachfreiniau)
 - gwybodaeth am deithiau yn sgil y bomiau ar 7 Gorffennaf yn Llundain
 - ymateb teithwyr i'r ffordd y bu Chiltern Trains yn trafod yr hyn a ddigwyddodd ar ôl i dwnel Gerrards Cross ddisgyn
 - argaeledd tocynnau i'w prynu ymlaen llaw
- ymgysylltwyd â theithwyr drwy ddigwyddiadau mewn gorsafoedd, sefydlwyd rhwydweithiau ebost ar gyfer teithwyr ac ymgymeryd â sawl arolwg barn sydyn.

Beth fyddwn yn ei wneud yn 2006-7?

- cyhoeddi arolygon ATC ar gyfer y Gwanwyn a'r Hydref
- ymgymryd ag o leiaf dau brosiect ymchwil o bwys
- ennyn diddordeb o leiaf 20,000 o deithwyr yng ngwaith Ffocws ar Deithwyr
- dechrau arolygon yn debyg i rai 'siopwr dirgel'

Gwneud arolwg o deithwyr

Yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol (ATC) yw'r arolwg mwyaf o fodlondeb cwsmeriaid a gyhoeddir yn Ewrop. Ar ôl iddo gael ei drosglwyddo o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (ARhS), y cam yr ymgymeryd ag ef yn Hydref 2005 oedd cam cyntaf yr arolwg a wnaethpwyd gan Ffocws ar Deithwyr.

Yn Hydref 2005 cafwyd y canran uchaf ar gof a chadw o deithwyr a oedd yn fodlon ar eu taith ar y cyfan, gyda phedwar allan o bum teithiwr (80%) yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon. Mae hyn o'i gymharu â 76% yn hydref 2004. Bu prydlondeb, a oedd gynt yn gasbeth mawr i deithwyr, hefyd yn dangos cyfanswm uwch nag erioed, sef 77% yn fodlon. Ond er gwaethaf gwelliannau sylweddol mewn mesurau bodlondeb, dim ond 45% o deithwyr oedd yn fodlon ar y gwerth am arian yr oedd eu tocyn yn ei gynnig.

1.1 – Arolwg Teithwyr Cenedlaethol – canlyniadau Hydref 2004 – Gwanwyn 2005 (gyda'i gilydd), mewn cymhariaeth â chanlyniadau Hydref 2005 – Gwanwyn 2006 (gyda'i gilydd)

	POB TEITHIWR	
	2004-5	2005-6
Maint y sampl	53670	54674
Bodlondeb ar y cyfan	76%	80%
CYFLEUSTERAU GORSAFOEDD		
Cyfleusterau prynu tocynnau	64%	64%
Darparu gwybodaeth am amserau trên/platfformau	74%	77%
Cynnal a chadw/trwsio adeiladau'r orsaf/platfformau	59%	61%
Glanweithdra	64%	67%
Y cyfleusterau a'r gwasanaethau	47%	51%
Agweddau a chymwynasgarwch y staff	67%	69%
Cysylltiadau â chlodiant cyhoeddus arall	71%	73%
Cyfleusterau parcio	44%	46%
Yr amgylchoedd cyffredinol	59%	60%
Eich diogelwch personol wrth ddefnyddio	56%	58%
Argaeledd y staff	54%	56%
Sut cafodd eich cais i staff yr orsaf ei drafod	82%	82%
CYFLEUSTERAU'R TRÊN		
Amllder y trenau ar y llwybr hwnnw	73%	77%
Prydlondeb/ dibynadwyedd (h.y. y trên yn cyrraedd/yn gadael mewn pryd)	73%	78%
Faint o amser yr oedd y daith i fod i gymryd (cyflymder)	79%	82%
Cysylltiadau â gwasanaethau trên eraill	67%	69%
Gwerth am arian am bris eich tocyn	43%	43%
Glanweithdra'r trên	64%	72%
Cynnal a chadw a thrwsio'r trên	61%	70%
Darparu gwybodaeth yn ystod y daith	57%	64%
Cymwynasgarwch ac ymddygiad staff ar y trên	55%	63%
Y lle ar gyfer bagiau	45%	49%
Y cyfleusterau toiled	33%	39%
Digon o le i bob teithwyr eistedd/sefyll	60%	62%
Cyfforddusrwydd y man eistedd	61%	68%
Hawster esgyn/disgyn	74%	77%
Eich diogelwch personol tra oeddech ar y trên	66%	69%
Glanweithdra y tu fewn	63%	71%
Glanweithdra y tu allan	56%	65%
Argaeledd y staff	35%	38%
Pa mor dda y bu'r cwmni trên yn delio ag oedi	31%	34%

 - yn golygu gwelliant mewn cymhariaeth â'r cyfnod blaenorol

1.2 – Data'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol 2001 – 2006

	Hydref 2001	Gwanwyn 2002	Hydref 2002	Gwanwyn 2003	Hydref 2003	Gwanwyn 2004	Hydref 2004	Gwanwyn 2005	Hydref 2005	Gwanwyn 2006
BARN AM Y DAITH GYFAN	72	72	73	74	73	73	76	77	80	80
Y GWERTH AM ARIAN AM BRIS									45	
EICH TOCYN CYNNAL A CHADW A THRWSIO'R	42	42	43	43	43	42	44	41		41
	52	51	51	52	53	53	59	64	71	70

TRÊN

1.3 - Data'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol yn dangos bodlondeb a mesurau gwerth am arian ar y cyfan 2001-2006

Bodlondeb ar y Cyfan

	Hydref 2001	Gwanwy n 2002	Hydref 2002	Gwanwy n 2003	Hydref 2003	Gwanwy n 2004	Hydref 2004	Gwanwy n 2005	Hydref 2005	Gwanwy n 2006
Cymudwyr	62	62	64	63	64	65	66	68	72	72
Teithwyr busnes	72	74	73	76	73	75	81	79	82	82
Teithwyr Hamdden	84	83	83	84	82	82	85	85	88	88
Ar y Cyfan	72	72	73	74	73	73	76	77	80	80

Gwerth am arian am bris eich tocyn

	Hydref 2001	Gwanwy n 2002	Hydref 2002	Gwanwy n 2003	Hydref 2003	Gwanwy n 2004	Hydref 2004	Gwanwy n 2005	Hydref 2005	Gwanwy n 2006
Cymudwyr	27	27	29	28	28	28	29	27	30	27
Teithwyr busnes	42	40	42	45	43	43	46	43	48	41
Teithwyr hamdden	60	60	60	59	59	59	60	58	61	58
Ar y cyfan	42	42	43	43	43	42	44	41	45	41

Costau cyfiawn?

Gan fod cymaint o wahanol docynnau ar werth a chyda'r cynnydd blynyddol mewn costau teithio yn dechrau o 1 Ionawr 2006, nid oedd yn syndod bod gwerth am arian a gynigiwyd gan gostau trên yn aros yn isel yn y mesurau bodlondeb. Comisiynodd Ffocws ar Deithwyr ymchwil helaeth i archwilio ymwybyddiaeth a barn teithwyr ar yr ystod o docynnau sydd ar gael, gan edrych ar beth sy'n rhoi gwerth am arian a sicio dealltwriaeth defnyddwyr rheilffyrdd am docynnau 'Saver', eu hymwybyddiaeth ohonynt a'u hagweddau tuag atynt, yn ogystal â'r gallu i brynu tocynnau naw wythnos ymlaen llaw.

Dengys y canlyniadau o 14 grŵp trafod a oedd yn cynnwys teithwyr dros Brydain yr ystyrir y strwythur gostau rheilffordd yn gymhleth ac yn ddryslyd, yn enwedig ar gyfer teithwyr hamdden a busnes sy'n gwneud teithiau hirach. Mae teithwyr yn gofidio efallai y byddant yn dewis y tocyn anghywir ac maent am gael help i sicrhau eu bod yn cael y ddêl orau. Mae teithwyr y mae angen hyblygrwydd arnynt wrth drefnu teithiau yn gwerthfawrogi tocynnau sydyn, fforddiadwy, ac mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rheiny sy'n gwneud tripiâu undydd. Ceir adroddiad am ymchwil pellach sy'n anelu at fesur barn teithwyr ym mis Awst 2006.

Yr hyn sydd ei wir angen ar deithwyr

Fel rhan o greu llun cenedlaethol o'r hyn y mae teithwyr am ei weld ar eu taith, comisiynodd Ffocws ar Deithwyr ddarn mawr o ymchwil ar sawl llwybr allweddol ar fasnachfaint a llwybrau Central Trains o fewn Strategaethau Defnyddio Llwybrau *Greater Anglia* a'r Alban. Gofynnodd yr ymchwil pwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau, pam a beth oedd blaenoriaethau penodol teithwyr ar gyfer pob llwybr. Roedd rhaid i deithwyr fesur eu disgwyliadau a'u profiad o agweddau arbennig agweddau ar eu taith a buont yn mesur pa mor bwysig oedd pob agwedd iddynt.

Mae'r canlyniadau'n dangos amrywiaeth enfawr mewn blaenoriaethau fesul llwybr, gyda materion megis cyfleusterau prynu tocynnau a darparu gwybodaeth yn cael eu hystyried yn rhai o'r materion mwyaf. Bydd y canlyniadau yn llywio dyheadau Ffocws ar Deithwyr am

fasnachfreintiau a SDLlau yn y dyfodol, ac mae'r un dechneg yn cael ei defnyddio bellach er mwyn rhoi gwybodaeth am flaenoriaethau teithwyr yn y fasnachfaint *Cross Country*.

Gofyn i'r teithwyr

Fel rhan o newid mawr yn yr amserlen c2c, aeth Ffocws ar Deithwyr i blatfformau gorsafoedd Fenchurch Street, West Limehouse and Southend Central dros wythnos ym mis Mawrth i amlygu'r cynigion i deithwyr ac i ofyn am eu mewnbwn cyn i'r newidiadau gael eu gweithredu ym mis Rhagfyr 2006. Bu'r ymarfer hwn yn creu ymateb enfawr gan deithwyr, gyda mwy na 1900 o ymatebion wedi'u derbyn yn ein canolfan gysylltu.

Bu Ffocws ar Deithwyr yn ymuno â rheilffordd 'one' i brofi barn teithwyr am amserlenni eu gwasanaethau fel rhan o newid mawr i'r amserlen a gynigiwyd gan y cwmni trên. Dosbarthwyd tua 2,000 o holiaduron i deithwyr ar draws dau o'u llwybrau mawr, gan gynnwys bron pob trên yn yr amserlen. Mae canlyniadau o'r ymchwil hwn bellach yn cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i'r drafodaeth ynghylch datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Ymosodiadau gan frawychwyr yn Llundain

Yn dilyn digwyddiadau trychinebus 7 Gorffennaf, cydlynodd Ffocws ar Deithwyr brosiect ymchwil ar ran Network Rail i adolygu sut a ble daeth teithwyr o hyd i wybodaeth deithio yn sgil y bomio a'r amhariad ar y rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus yn Llundain. Dangosodd yr ymchwil fod pobl a oedd wedi cyrraedd eu gwaith yn troi'n bennaf at wefannau er mwyn cynllunio eu teithiau adref. Y wefan fwyaf poblogaidd oedd Transport for London (TfL), wedi'i ddilyn gan y BBC ac Ymholiadau Rheilffordd Cenedlaethol. Mae Ffocws ar Deithwyr yn argymhell bod pob sefydliad yn adolygu gallu eu gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â galw mawr mewn argyfwng.

1. Sicrhau gwelliannau cyffyrddadwy a mesuradwy i deithwyr rheilffordd AMCAN DAU

Ein nodau

- gweithio i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau
- datblygu perthnasau gweithio cryf gyda'r canlynol:
 - Yr Adran dros Drafnidiaeth
 - Gweithrediaeth yr Alban
 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
 - Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd
 - asiantaethau datblygu rhanbarthol
 - cynullïadau rhanbarthol
 - Network Rail
 - Cwmnïau trên

Yr hyn a wnaethom

- sicrhau nifer o welliannau mewn gwasanaethau
- datblygu perthnasau cryf gyda budd-deiliaid allweddol
- cynhaliwyd cyfarfod y Bwrdd a derbyniad seneddol yn yr Alban

Beth fyddwn yn ei wneud yn 2006-7

- cyflawni o leiaf 100 o welliannau mesuradwy i deithwyr
- parhau i adeiladau perthnasau gyda budd-deiliaid allweddol

Mae rheolwyr cyswllt teithwyr wedi bod yn defnyddio gwybodaeth a manylion lleol a gasglwyd gan ymchwil ac ymgynghori â theithwyr er mwyn codi materion sy'n effeithio ar deithwyr yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar welliannau mewn gwasanaethau. Amlygir rhai o'r buddion cyffyrddadwy i deithwyr o ganlyniad ein gwaith eleni isod.

Llwyddiannau mewn gorsafodded

- cynigiodd South Eastern Trains newid mawr i oriau agor swyddfeydd tocynnau ar draws 187 o orsafodded ar ddechrau'r flwyddyn. Lleisiwyd pryder y byddai'r newidiadau arfaethedig yn anafanteisiol i deithwyr a bod barn teithwyr yn cael ei anwybyddu. Dechreuodd Ffocws ar Deithwyr a London TravelWatch ymgyrch a oedd yn cynnwys casglu dros 3000 o farnau teithwyr a budd-deiliaid, i ffurfio sail cyd-gyflwyniad i'r Adran Drafnidiaeth. Ym mis Tachwedd 2005, gwrthododd yr Adran Drafnidiaeth gynnig South Eastern Trains ac yn hytrach rhoddodd awdurdod i GoVia (y masnachfreiniwr newydd o 1 Ebrill 2006 ymlaen) adolygu'r cynigion gyda Ffocws ar Deithwyr a London TravelWatch, gyda golwg ar wneud cynnig newydd, pe bai gofyn, erbyn mis Medi 2006.
- yn dilyn trafodaethau Ffocws ar Deithwyr gyda First Great Western, adnewyddwyd peiriannau tocyn cyflym yng ngorsaf Bryste Parkway i werthu tocynnau 'Saver' cyn y cyfnod Saver (h.y. i'r teithwyr a oedd am brynu tocynnau ymlaen llaw yn yr orsaf er mwyn teithio ar drenau hwyrach pan oedd tocynnau 'Saver' yn ddilys)
- yn hwyr yn 2005, rhoddodd Arriva Trains Wales y gorau i staffio gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren ar sail barhaol, gan ei gwneud hi'n anodd i deithwyr brynu tocynnau a chynllunio

teithiau. Yn dilyn cynrychiolaeth gan Ffocws ar Deithwyr, cytunodd y cwmni trên i ddychwelyd staff parhaol i'r orsaf hon.

Gwybodaeth

- byddai'r plattform i'r de yng ngorsaf Congleton yn dangos amserlen ar gyfer gwasanaethau Northern a oedd yn camarwain teithwyr i gredu mai dim ond gwasanaethau cyfyngedig a fu i/o Fanceinion gyda Northern ac nid oedd gwasanaeth gan gwmnïau eraill. Cyfeiriodd Ffocws ar Deithwyr y mater at Northern a rhoddwyd amserlen gyfan yn y dull 'A-Z' yn lle'r amserlen anghywir.
- creodd beirniadaeth gan deithwyr o safon posteri gwybodaeth a arddangoswyd mewn gorsafoedd yr oedd Northern yn berchennog arnynt gyfle ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng Ffocws ar Deithwyr a'r cwmni trên i ddrafftio posteri newydd. Mae'r rhain yn cael eu treialu ar hyn o bryd mewn nifer o orsafoedd ar draws y rhwydwaith. Bydd y posteri newydd hyn yn cynnwys mapiau lleol gwell, manylion am gymorth yn achos oedi/problemau a chngor cyffredinol ar gostau teithio.

Ar y trên

- daeth Ffocws ar Deithwyr yn ymwybodol am y cyfleusterau tanc glanweithdra cyfyngedig yng Ngorsaf Caerliwelydd ar gyfer trenau Leeds-Settle-Caerliwelydd, a oedd yn golygu nad oedd cyfleusterau toiled fel arfer ar wasanaethau pellter canol. Bu cysylltu â Northern, Cyfeillion Llinell Caerliwelydd-Settle a rheolwr gorsaf Caerliwelydd yn arwain at ddarparu cyfleusterau tanc gwell ar gyfer gwasanaethau Northern ac felly cyfleusterau gwell ar y trên i deithwyr.
- roedd cyflwyno gwasanaethau cyflym rhwng Ashford a Brighton fel rhan o ymroddiad gwreiddiol masnachfrait Southern wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn gwasanaethau ar hyd y llwybr. Gweithredodd Ffocws ar Deithwyr ar ran teithwyr, gan wneud cynrychiolaeth i ymgynghoriad yr Adran Drafndiaeth ar ofyniadau amserlen Southern. Y canlyniad oedd cytundeb i ychwanegu 22 o wasanaethau stopio newydd yn yr amserlen cyn gynted ag y bo modd.
- roedd trên Wessex a oedd yn mynd o Gaerdydd Canolog i Exeter St Davids am 17.00 yn gadael yn 15-30 o funudau yn hwyr yn rheolaidd, er iddo fod yn yr orsaf ar yr amser ymadael. Roedd yr amser hir a dreuliodd y gwasanaeth allweddol hwn i gymudwyr yn yr orsaf yn achosi amhariad cynyddol i nifer o wasanaethau eraill. Hysbysodd Ffocws ar Deithwyr y cwmni trên am y broblem, yr oedd rhan ohoni yn digwydd oherwydd newid criw, yn ôl pob golwg. Ers i Ffocws ar Deithwyr amlygu'r mater, mae prydlondeb y trên hwn wedi gwella'n sylweddol.

Cael mynediad i'r rhwydwaith

- ar ôl cyfnod cynaledig o lobio gan Ffocws ar Deithwyr, agorwyd mynediad cefn i orsaf Bryste Temple Meads a gosodwyd esgynfa er mwyn caniatáu mynediad go iawn allan o'r orsaf i'r cyfadeilad newydd, Temple Quay. Mae hyn wedi gwella mynediad i bawb, yn enwedig ar gyfer teithwyr â nam ar eu symudoldeb nad oeddynt yn gallu defnyddio'r fynedfa hon yn flaenorol.
- bu cyflwyno 'Class 322s' ar lwybr Caeredin Waverley i North Berwick yn arwain at wasanaeth gwaeth ar gyfer teithwyr anabl, gyda dim esgynfeydd rhwng y plattform a'r trên. Yn dilyn trafodaethau Ffocws ar Deithwyr gyda First ScotRail, caiff esgynfeydd eu darparu

ar bob trê'n o hyn ymlaen. Ceir hyn oherwydd bod man cadw diogel wedi'i nodi fel rhan o raglen adnewyddu.

- roedd newidiadau yng ngwasanaeth Crewe-Skegness ym mis Rhagfyr 2005 yn achosi cysylltiadau gwael yn Derby. Yn dilyn cynrychiolaethau gan Ffocws ar Deithwyr, cytunodd Central Trains i weithredu newidiadau a fydd yn ei gwneud yn rhwyddach dal cysylltiadau yn Derby o fis Mehefin 2006.

Faint?

- cafodd Ffocws ar Deithwyr gytundeb gan reilffordd 'one' i gywiro anghysondeb hanesyddol a oedd yn golygu nad oedd teithwyr yn gallu prynu tocynnau wrth newid rhwng llinell Southminster a llinell c2c/Llundain Tilbury Southend, gan nad oedd pris yn y system. Dylid datrys y mater hwn ym mis Mehefin 2006.
- hyd yn ddiweddar yng ngorsaf Caergrawnt, nid oedd teithwyr yn gallu prynu tocynnau 'Saver' gan beiriannau tocynnau cyflym, hyd yn oed pan oedd gwasanaethau yn digwydd bod yn y cyfnod cymwys. Cododd Ffocws ar Deithwyr y mater hwn i 'one', ac yna datryswyd y gwall yn y feddalwedd gyda chyflenwr y peiriant.

Iawndal

- ac yntau wedi cyflwyno pecyn iawndal pwrpasol ar gyfer teithwyr yr effeithwyr arnynt gan ddisgyniad Twne! Gerrards Cross, derbyniodd Chiltern Railways ganlyniadau'r ymchwil gan Ffocws ar Deithwyr a London TravelWatch a fu'n edrych ar fodlondeb teithwyr ynghylch sut trafodwyd yr amhariad. Derbyniodd Chiltern y pwyntiau a wnaethpwyd gan Ffocws ar Deithwyr ac maent yn cydnabod y buasent yn gweithredu'n wahanol pe bai angen delio â mater tebyg eto
- ym mis Mawrth, sicrhaodd Ffocws ar Deithwyr gytundeb hefyd gan reilffordd 'one' i ddeiliaid tocyn tymor gael rhyw fath o iawndal *ex gratia* i gydnabod yr amhariad a achoswyd i'w teithiau ym mis Rhagfyr 2005. Mae pecyn yn cael ei ddatblygu gan y cwmni ar hyn o bryd, sy'n debyg o gynnwys cynnig teithio allfrig am ddim ar rwydwaith 'one'.

Grymuso teithwyr gyda gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth TRI

Ein nodau

- datblygu a chyhoeddi gwybodaeth a chynghor clir, cynhwysfawr a defnyddiol i deithwyr
- gweithio gyda grwpiau teithwyr eraill i wella eu gallu i helpu teithwyr
- datblygu cynhyrchion i rymuso teithwyr rheilffordd
- parhau i wella ein gwasanaeth apelio

Yr hyn a wnaethom

- delio â chyfanswm o 13,828 o gysylltiadau gan deithwyr
- delio â 1975 o gwynion cychwynnol
- delio â 1580 o gwynion apêl
- helpu nifer o gwmnïau trên, fel Virgin Trains, i greu paneli i deithwyr
- trefnu pedwar cyfarfod rhwng grwpiau defnyddwyr rheilffordd a chwmnïau trên.

Beth fyddwn yn ei wneud yn 2006-7


- datblygu ein gwefan
- cyhoeddi dwy daflen: *'just the ticket'* a *'get the best deal'*
- delio â phob cyswllt a chwyn gan deithwyr, gan wella bodlondeb ar ein gwasanaeth
- trefnu o leiaf pedwar cyfarfod rhwng grwpiau defnyddwyr rheilffordd a chwmnïau trên

1. Cysylltiadau â chanolfan gysylltu Ffocws ar Deithwyr

Ers i'r sefydliad gael ei lansio ar 24 Gorffennaf 2005, cysylltodd cyfanswm o **13,828** o deithwyr â Ffocws ar Deithwyr.

Mae cysylltiadau â Ffocws ar Deithwyr yn cynnwys cysylltiadau ynghylch cwynion cychwynnol a chwynion apêl, ceisiadau am wybodaeth, ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltiadau gan fuddiolwyr, gofyniadau cyflawni a llawer o ymholiadau, y mae rhai ohonynt yn cael eu cyfeirio at London TravelWatch a sefydliadau eraill.

Cysylltiadau gan deithwyr yn ôl tarddiad



2. Mewn cysylltiad

Darparodd Ffocws ar Deithwyr wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddiudedd ac yn rhad ac am ddim drwy ei wasanaeth cyflafareddu ar gyfer teithwyr nad oeddynt yn fodlon ar y ffordd yr oedd y diwydiant rheilffordd wedi trafod eu cwyn. Drwy gydymdraffod â darparwyr gwasanaethau rheilffordd, roedd Ffocws ar Deithwyr yn gallu dod â miloedd o gwynion gan deithwyr i ben yn foddhaol.

Cafodd Ffocws ar Deithwyr gyfanswm o **3555** o gwynion (1975 o gwynion cychwynnol a 1580 o apelïadau) rhwng 24 Gorffennaf 2005 a 31 Mawrth 2006. Pan gyfunwyd hyn â chyfanswm y sefydliad blaenorol rhwng 1 Ebrill 2005 a 22 Gorffennaf 2005, mae hyn yn rhoi cyfanswm cyfunol o **5568** o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

3. Cwynion apêl a dderbyniwyd gan Ffocws ar Deithwyr, wedi'u dadansoddi fesul cwmni trê

Nid yw'r tabl hwn yn dangos y cwynion apêl a dderbyniwyd gan London TravelWatch. Bydd teithwyr a oedd yn teithio ar gwmnïau trê sy'n gweithredu yn ardal Llundain wedi troi at London TravelWatch os bu'r digwyddiad y maent yn cwyno amdano yn digwydd yn Llundain.

Felly, ceir mwy o gwynion na'r rhai a restrir isod ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n gweithredu yn Llundain a'i chyron.

Darparwr Gwasanaeth S	2005-6
'one'	154
c2c	20
Central Trains	184
Chiltern Railways	23
First Great Western	230
First Great Western Link	42
First ScotRail	99
Gatwick Express	0
Great North Eastern Railway	282
Heathrow Express	1
Hull Trains	2
Island Line	0
Merseyrail	20
Midland Mainline	72
Northern Rail	179
Serco Metrolink	4
Silverlink	19
South Eastern Trains	120
South West Trains	125
Southern Railway	83
Thameslink	4
TransPennine Express	89
Trenau Arriva Cymru	127
Virgin Cross Country	146

Virgin West Coast	138
Wessex Trains	81
West Anglia Great Northern (WAGN)	34
Darparwyr gwybodaeth/gwefan/ffôn-werthu	106
Network Rail	12
Eraill:	48
Eurostar	2
Central Parking Systems of UK Ltd	39
Nexus	1
Arall	3
Cardiau rheilffordd ATOC	1
Arall yn y diwydiant rheilffordd	2
Cyfanswm	2444

Cwynion cychwynnol


Hysbysir teithwyr sy'n cysylltu â Ffocws ar Deithwyr gyda'u cwyn yn y lle cyntaf bod y sefydliad ond yn gallu cymryd rhan ar ôl iddynt roi cyfle i'r darparwr gwasanaeth ddatrys y mater. Serch hynny, mae Ffocws ar Deithwyr yn cynnig cyngor am y ffordd orau o frw ymlaen â'r cwyn, ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth ynghylch hawliau teithwyr. Cofnodir pob mater a godir gan deithwyr yn ystod cwynion cychwynnol ac fe'u defnyddir i helpu i nodi talcenni caled a chyfleoedd am ymyriad a chynrychiolaeth.

Cwynion apêl

Gall teithwyr sydd wedi cysylltu â'u darparwr gwasanaeth ond nad ydynt yn fodlon ar eu hymtaeb ofyn i Ffocws ar Deithwyr adolygu eu cwyn a chyflafareddu â'r darparwr gwasanaeth rheilffordd ar eu rhan. Ffocws ar Deithwyr yn sicrhau ei fod yn teimlo bod y cwyn wedi'i thrafod yn iawn ai peidio. Os bydd yn teimlo y gallai'r darparwr gwasanaeth wneud mwy i'r teithiwr, yna bydd yn gofyn iddynt adolygu sut mae'n trafod y cwyn er mwyn dod â'r mater i ben yn foddhaol.

Mae gan London TravelWatch yr un rôl ar gyfer cwynion am y rheilffordd genedlaethol yn ardal Llundain.


4. Materion a godwyd gan deithwyr mewn cwynion



Mae Tabl pedwar yn dangos y math o gwynion a dderbyniwyd gan Ffocws ar Deithwyr Mae pob cwyn a dderbyniwyd yn cael ei dadansoddi a chofnodir y materion a godir gan y teithiwr fel sylwadau. Gall un gwyn gynnwys mwy nag un sylw, felly mae cyfanswm y sylwadau a welir yn y tabl hwn yn wahanol i'r nifer gwirioneddol o gwynion a dderbyniwyd.

Eleni, y prif fater a oedd yn achosi pryder i deithwyr oedd safon system y gweithredwyr trên o drafod cwynion, a oedd yn cynhyrchu 1991 o sylwadau, a pherfformiad gwael y gwasanaeth trên, a oedd yn cynhyrchu 1958 o sylwadau. Ac yna, cafwyd sylwadau am gostau teithio a manwerthu.

5. Sut y perfformiodd Ffocws ar Deithwyr?



Trafod cysylltiadau gan deithwyr

Atebodd Ffocws ar Deithwyr 95% o'r galwadau a dderbyniwyd. Cymerwyd 10 eiliad, ar gyfartaledd, i ateb galwad. Mae hyn o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth a nodir gan Ffocws ar Deithwyr.

Trafod cwynion

Mae tîm trafod cwynion Ffocws ar Deithwyr yn bwriadu datrys materion teithwyr unigol a chynnig gwybodaeth a chynngor i deithwyr. Mae'r tabl isod yn dangos sut y perfformiodd y tîm yn erbyn ei dargedau trafod cwynion.


		Targed	Canlyniad
Targed 1	Cwynion a gofnodwyd ar y gronfa ddata ar y diwrnod y'u derbyniwyd	100%	62%
Targed 2	Cwynion cychwynnol a gydnabuwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	100%	91%
Targed 3	Cwynion apêl a gydnabuwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	100%	72%
Targed 4	Cwynion cychwynnol a gaewyd o fewn 5 diwrnod gwaith	100%	96%

wedi eu derbyn
 Cwynion apêl a gaewyd o fewn 35 diwrnod gwaith wedi'u **80%** **87%**
 Targed 5 derbyn

6. Bodlonrwydd teithwyr

Mae Ffocws ar Deithwyr yn gwneud arolwg o farn teithwyr sy'n defnyddio'i wasanaeth er mwyn cael deall sut y maent yn teimlo am y ffordd y trafodwyd eu cwyn.


6.1 Bodlonrwydd ar gysylltu â Ffocws ar Deithwyr



6.2 Bodlonrwydd ar drafod cwynion

Gofynnir i deithwyr ddiystyru canlyniad eu cwyn a dangos pa mor fodlon yr oeddynt ar y ffordd y'i trafodwyd.

Mae'r graff isod yn dangos canran y teithwyr sydd wedi dangos eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ym mhob cyfnod o'r flwyddyn. Mae'r llinell gogwyddion unlin yn dangos y cynnydd cyson mewn lefelau bodlonrwydd.



Mae lefelau bodlonrwydd teithwyr wedi'u dylanwadu'n sylweddol gan ganlyniad y gŵyn. Serch hynny, yn aml, mae hyn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tîm trafod cwynion – er y gall Ffocws ar Deithwyr gyflafareddu, oni bai bod y darparwr gwasanaethau yn torri ei rwymedigaethau statudol, nid yw'n gallu eu gorfodi i ddatrys cwyn mewn ffordd benodol. Weithiau, gall hyn effeithio ar ganlyniad y gŵyn a bodlonrwydd teithwyr.

Dylanwadu ar y penderfyniadau mawr, tymor-hir sy'n effeithio ar deithwyr AMCAN PEDWAR

Ein nodau

- deall barn teithwyr ar gostau teithio ac adrodd arnynt
- deall blaenoriaethau teithwyr wrth ddatblygu strategaethau defnyddio llwybrau ac yn ystod ailosod masnachfreintiau ac adrodd arnynt
- sicrhau bod barn teithwyr yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses ailosod trenau cyflym
- ymgyrchu a lobïo i godi proffil blaenoriaethau teithwyr
- monitro datblygiadau ar ddiogelwch a materion teithwyr yn Ewrop

Yr hyn a wnaethom

- cynllunio cynhadledd gyhoeddus o bwys ar gostau teithio (a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2006), pan gyhoeddwyd cam cyntaf ymchwil a gomisiynwyd yn 2005-6
- comisiynu ail gam, mesurol, o ymchwil
- cynnal proffil uchel yn y cyfryngau o ran costau teithio
- gweithio ar bedwar strategaeth defnyddio llwybrau ac ailosod chwe masnachfrait
- rhoi tystiolaeth i dri Phwyllgor Dethol ar Drafndiaeth
- gweithredu fel aelod o fwrdd noddi trenau cyflym a arweiniwyd gan yr Adran dros Drafndiaeth

Beth fyddwn yn ei wneud yn 2006-7

- parhau i ymgyrchu ynghylch costau teithio
- gweithio i roi hwb i'r fantais i deithwyr ar wyth strategaeth defnyddio llwybrau ac wrth ailosod saith masnachfrait

Ffocysu ar fasnachfreintiau

Yn 2005-6 cafwyd newidiadau sylweddol yn strwythur a pherchnogaeth masnachfreintiau trên, gyda Ffocws ar Deithwyr yn cael mewnbwn wrth ddatblygu tair masnachfrait newydd.

- **Thameslink/Great Northern**

Nododd Ffocws ar Deithwyr ei ddyheadau ar gyfer dyfodol masnachfrait Thameslink/Great Northern, a chynhaliodd gyfarfodydd gyda'r holl gynigwyr a oedd wedi rhag-gymhwyso i gael gwybod beth oedd pob cwmni yn ei gynnig. Ar ôl i Once First Capital Connect, a weithredwyd gan First Group, dderbyn y fasnachfrait, trefnodd Ffocws ar Deithwyr gyfarfod gydag awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i gyflawni manteision i deithwyr ar ben y rhai a gytunwyd yn y fasnachfrait.

Bu Ffocws ar Deithwyr hefyd yn gweithio gyda'r tîm newydd i wneud arolwg o'u Siarter i Deithwyr ar ôl cyflwyno system '**oedi-ad-dalu**' newydd o ad-daliad. Bu Ffocws ar Deithwyr yn pwysu am adolygiad er mwyn amddiffyn yn well ddeiliaid tocynnau tymor sy'n wynebu nifer o oediadau dan 30 munud yn olynol.

- **Great Western Gwell**

Gan ddod â gwasanaethau rhyng-ddinesig, gwasanaethau i gymudwyr a gwasanaethau gwledig at ei gilydd, bydd y fasnachfaint Greater Western newydd yn cwmpasu darn enfawr o'r rhwydwaith rheilffordd. Mae First Group wedi ymroi i daliadau arbennig o £1.13 biliwn yn ystod oes y fasnachfaint, gan achosi pryder y bydd costau teithio'n codi a bydd gwasanaethau'n cael eu torri er mwyn galluogi First Great Western i gwrdd â'i gostau.

Roedd dechrau'r fasnachfaint newydd yn cynnwys ymgynghori â Ffocws ar Deithwyr ar y newidiadau arfaethedig yn yr amserlen. Aeth First Great Western i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan beri rhai gwelliannau yn yr amserlen, ac mae Ffocws ar Deithwyr yn parhau i fonitro'r sefyllfa mewn perthynas â'r amserlen arfaethedig ym mis Rhagfyr 2006.

Mae mwy o fasnachfreintiau newydd ar y gweill, a roddodd gyfle i Ffocws ar Deithwyr ddylanwadu ar y drafodaeth ar adeg gynnar.

- **Masnachfaint South Western**

Mis Ionawr 2006 oedd y terfyn amser ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad ar y fasnachfaint South Western newydd, sy'n cyfuno gwasanaethau gynt South West Trains ac Island Line. Roedd cyflwyniad Ffocws ar Deithwyr yn trafod a oedd cynigion o fewn manyleb y fasnachfaint yn rhoi digon o gapasiti i fodloni'r galw yn bresennol ac yn y dyfodol. Roedd rhan o'r cyflwyniad yn seiliedig ar farnau a gafwyd gan grwpiau defnyddwyr rheilffordd lleol, a oedd yn nodi amlder gwasanaethau a chyfleusterau gorsafoedd fel elfennau allweddol ar gyfer y fasnachfaint newydd.

- **Central Trains ac ailfapio Cross Country**

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y câi gwasanaethau Central Trains eu hail-fapio ym mis Hydref 2005. Mae'r cynigion yn cynnig tair masnachfaint newydd yn lle'r pedair sy'n bodoli ar hyn o bryd (Central Trains, Midland Mainline, Virgin Cross Country a Silverlink County). Y rhain fydd masnachfreintiau East Midlands a'r West Midlands a masnachfaint Cross Country ddiwygiedig. Mae'n bosibl y bydd effaith gynyddol ar fasnachfreintiau eraill.

Dechreuodd Ffocws ar Deithwyr drafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch y cynigion a dechreuodd ei ymchwil cefndir i'r masnachfreintiau newydd. Yr oedd y gwaith hwn yn cynnwys ymchwil desg, ymgynghori â budd-deiliaid, a darganfod barn a blaenoriaethau teithwyr drwy ymchwil a gomisiynwyd.

Cynllunio perffaith

Mae'n bosibl y gall Strategaethau Defnyddio Llwybrau Network Rail (SDLlau) wneud effaith fawr ar lefel a safon y gwasanaeth y mae teithwyr yn ei gael yn y tymor byr i'r tymor canolig. Gall penderfyniadau a wneir yn yr SDLI ddylanwadu ar bethau megis y canlynol:

- gorlwytho
- amlder gwasanaethau
- patrymau stopio
- cau gorsafoedd
- lefelau perfformiad.

Mae SDLlau yn un o'r blaenoriaethau allweddol i Ffocws ar Deithwyr, ac eleni, gwnaethpwyd y canlynol gan y sefydliad:

- ymateb i'r ymgynghoriad ar SDLI y South West Main Line. Fel rhan o'i gyflwyniad, gofynnodd Ffocws ar Deithwyr am farn grwpiau defnyddwyr rheilffordd, awdurdodau lleol ac

Aelodau Seneddol yn yr ardal. Yn dilyn hyn, comisiynwyd ymchwil grwpiau trafod ynghylch tueddiad teithwyr i deithio ar yr adegau prysur cynnar neu'r rhai sy'n eu dilyn i mewn i Waterloo

- ymateb i ymgynghoriad ar SDLI Draws Lundain fel rhan o gyd-gyflwyniad gyda London TravelWatch
- ymateb i'r cyhoeddiad ynghylch SDLI Brighton Main Line
- trefnu ymchwil i roi gwybodaeth i'n mewnbyn i SDLlau Greater Anglia a'r Alban
- sefydlu cyfarfodydd dwyochrog misol gyda Network Rail ar gyfer y newyddion diweddaraf a mewnbyn mwy manwl.

Costau cyfiawn?

Ym mis Medi 2005, cyflwynodd Ffocws ar Deithwyr dystiolaeth i ymholiad Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin ar *"How fair are the fares? Train fares and ticketing"*. Dywedodd tystiolaeth Ffocws ar Deithwyr ei fod yn credu bod llawer o gostau teithio rheilffordd yn rhy uchel; bod strwythur y costau teithio'n rhy gymhleth ac yn rhy ddryslyd a bod angen i'r diwydiant rheilffordd fanteisio ar ysgogiadau costau teithio er mwyn denu teithwyr i deithio ar adegau pan fydd mwy o le.

Rheilffyrdd diogelach

Mae Ffocws ar Deithwyr wedi chwarae rhan weithredol wrth gynrychioli'r cyhoedd ar ystod o grwpiau cynghorol a gweithgorau, gan helpu i lunio strategaeth y diwydiant ac i hybu trafodaeth wybodus am argoelion a blaenoriaethau diogelwch ar y rheilffyrdd. Yn ystod 2005-6, cyflawnodd Ffocws ar Deithwyr y canlynol:

- cynhyrchu adroddiad ar farn teithwyr am ddiogelwch personol (a sut i'w wella) fel rhan o'i fewnbyn i adolygiad y Llywodraeth ar ddyfodol Heddlu Trafnidiaeth Prydain ac archwiliad Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin o ddiogelwch y cyhoedd mewn gorsafoedd
- gweithio gyda phartneriaid o'r diwydiant drwy'r Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd i gomisiynu ymchwil i ddiogelwch croesfannau cerddwyr mewn gorsafoedd; gwella arwyddion a rheoli risgiau mewn gorsafoedd
- darparu sylwedydd annibynnol yn yr ymholiad ffurfiol i farwolaeth drychinebus dau blentyn yn eu harddegau ar y groesfan wastad yn Elsenham
- cysylltu'n agos â Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd ynghylch ei chynlluniau ar gyfer cymryd cyfrifoldeb dros waith Arolygiaeth Rheilffordd Ei Mawrhydi, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2006
- cyflwyno papur o'r enw: *'Corporate killing : the passenger perspective'* mewn seminar ar gyfer uwch reolwyr rheilffordd
- helpu – yn llwyddiannus – i berswadio corff yr UE sy'n gyfrifol am ddrafftio safonau technegol sy'n caniatáu i drenau weithredu'n fwy rhydd dros ffiniau cenedlaethol i newid ei gynigion i gymryd anghenion Prydain i ystyriaeth
- darparu cadeirydd annibynnol ar gyfer cyfarfod cyhoeddus blynyddol Pwyllgor Cynghorol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Diwydiant Rheilffordd yn Llundain, lle mai ffocws y drafodaeth oedd y risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â gorlwytho ar drenau
- cyflwyno ei gasgliadau yn sgil astudiaeth ynglŷn â'r risgiau sy'n dod o orlenwi mewn gorsafoedd, a sut i reoli'r rhain, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch. Noddwyd yr astudiaeth hon ar y cyd gan yr RSSB a'r RPC gynt. Mae ail gam yr ymchwil hwn, sy'n ymchwilio i orlwytho ar drenau, ar waith ar hyn o bryd.

Mynediad i bawb

Mae Ffocws ar Deithwyr yn credu bod 'hygyrchedd' yn golygu gallu pawb i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffordd. Gwnaeth ymateb manwl ar y cyd â London TravelWatch ar ymgynghoriad '*Railways for All*' yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA), gan bwysleisio y dylid hoelio unrhyw gyllid a oedd ar gael ar wella mynediad, ac ni ddylid ei wario, er enghraifft, ar dechnoleg wybodaeth y dylai gweithredwyr y fasnachfaint ei darparu fel rhan o'r drefn. Mae Ffocws ar Deithwyr bellach wedi'i gynrychioli ar grŵp lywio'r diwydiant, sy'n edrych ar faterion megis palmantau cyffyrddadwy, Cynlluniau Bach Mynediad i Bawb, dulliau gwell o roi gwybod am hygyrchedd gorsafoedd a datblygu diffiniad o 'gorsaf heb risiau' y mae pawb yn ei ddeall.

Mae'n ofynnol i Ffocws ar Deithwyr arolygu Polisi Diogelwch Pobl Anabl pob cwmni tre, sy'n gosod allan ei drefniadau a'i gyfleusterau ar gyfer cynorthwyo teithwyr anabl, ar drenau ac mewn gorsafoedd fel ei gilydd. Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd llawer o argymhellion Ffocws ar Deithwyr i ystyriaeth gan dri gweithredwr masnachfreiniau (First Capital Connect; First Great Western; South Eastern), un gweithredwr trenau siartr, a gweithredwr rheilffordd dreftadaeth.

Yn ogystal, gwahoddwyd Ffocws ar Deithwyr gan Bwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl (DPTAC) i gyfrannu i'r ymateb i ymgynghoriad Comisiwn yr UE ar *Accessibility for People with Reduced Mobility*. Yn ei ymateb ar y cyd â London TravelWatch, mynegwyd pryder gan Ffocws ar Deithwyr ynghylch gwanhau gofyniadau statudol cyfredol o bosib wrth ddatblygu trafndiaeth hygyrch.

Bwciwch ymlaen llaw... os gallwch

Ag yntau'n gofidio bod teithwyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar docynnau i'w prynu ymlaen llaw, bu Ffocws ar Deithwyr yn parhau â'i raglen i fonitro'r dyddiadau pan ddechreuodd y cyfnod archebu tocynnau a reolwyd fesul cwota ar gyfer y 12 mis diwethaf. Gwnaethpwyd y gwiriadau hyn gan Ffocws ar Deithwyr ar ddwy adeg brysuraf y flwyddyn ar gyfer prynu tocynnau ymlaen llaw - y Nadolig a'r Pasg.

Roedd gwiriadau'n dangos er bod cwmnïau trên yn dod yn well wrth ryddhau tocynnau i'w prynu ymlaen llaw, mae dal cryn le i wella er mwyn sicrhau bod pob tocyn i'w brynu ymlaen llaw yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosibl – sef naw wythnos cyn teithio.

Cododd Ffocws ar Deithwyr y mater yn uniongyrchol gyda Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR), ac wrth weithio gyda'r ORR, ymchwiliodd Ffocws ar Deithwyr i argaeledd tocynnau ar gyfer teithiau, gan dynnu ar ddata ynghylch rhyddhau tocynnau gan y Gymdeithas Cwmnïau Trên (ATOC).

Mae Ffocws ar Deithwyr hefyd yn parhau i bwysu ar gwmnïau trên i fod yn fwy tryloyw wrth ryddhau manylion cwotâu o docynnau sydd ar gael ym mhob amrediad pris er mwyn i deithwyr allu cael gwybod faint o docynnau sydd yn dal i fod ar gael er mwyn iddynt gynllunio eu teithiau mewn ffordd fwy gwybodus.

Cau Maindee Loop

Yn haf 2005, rhoddwyd terfyn ar wasanaethau uniongyrchol rhwng de-orllewin a gogledd orllewin Lloegr drwy dde Cymru oherwydd y penderfyniad i gymeradwyo cynnig gan Arriva Trains Wales i gau'r llinell rhwng Cyffordd Gogledd Maendy a Chyffordd Ddwyrain Maendy ('the Maindee Loop'), ger Casnewydd, Gwent, i wasanaethau i deithwyr.

Yn flaenorol, un o ddyletswyddau Ffocws ar Deithwyr oedd archwilio'n ffurfiol i gaeadau arfaethedig ac ystyried a fyddent yn achosi problemau. Yr oedd hyn yn cynnwys cyfrif teithwyr

ac ymgymryd ag arolygon o farn teithwyr ar y gwasanaethau y byddai'r caeadau'n effeithio arnynt yn ystod yr wythnos yn dechrau 1 Awst. O'r 708 o deithwyr a gyfrifwyd, llenwyd holiaduron gan 587 ohonynt. Roedd y dystiolaeth hon yn rhoi gwybodaeth i'r asesiad dilynol o broblemau i deithwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr ac i argymhellion Ffocws ar Deithwyr.

Dangosodd adroddiad Ffocws ar Deithwyr fod y rhan fwyaf o deithwyr (86%) yn teithio gyda rhyw fath o faich megis bagiau neu goets gadair, a dywedodd 8% fod anabledd arnynt a fu'n effeithio ar eu symudoldeb. Roedd dros hanner y teithwyr (53%) yn ystyried tynnu'r gwasanaethau trwodd yn anghyfleustra.

Yr Alban

Gan fod strategaeth a chyllid ar gyfer y rheilffyrdd yn yr Alban bellach dan reolaeth Gweithrediaeth yr Alban a'i asiantaeth gyflawni Transport Scotland, cymerodd Ffocws ar Deithwyr gamau cynnar i greu perthynas gweithio effeithiol gyda'r Gweinidog dros Drafnidiaeth a'i swyddogion. Yn ei gyfarfod bwrdd yng Nghaeredin ym mis Chwefror, adlewyrchodd Ffocws ar Deithwyr ar y goblygiadau i deithwyr o strategaeth reilffordd i'r Alban sy'n wahanol mewn rhai ffyrdd i'w chymheiriaid yng Nghymru a Lloegr.

Cyfrannodd Ffocws ar Deithwyr at ymgynghoriad Gweithrediaeth yr Alban ar ffurfio Pwyllgor Defnyddwyr Cludiant i Deithwyr ar gyfer yr Alban, gyda'r bwriad o ddarparu corff gynrychioliadol cynhwysfawr gyda chylch gwaith cynghorol ar lefel uwch ar gyfer teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau rheilffordd, awyrennau, bysiau a fferïau. Byddai'r corff hwn yn gweithio gyda chyrrff sy'n bodoli eisoes, megis Ffocws ar Deithwyr.

Ymunodd y cant o bobl gyntaf â'r cynllun peilot o fforwm Hyrwyddwyr i Deithwyr sy'n bwriadu darparu carreg ateb reolaidd o ran barn teithwyr ar draws yr Alban. Bu Ffocws ar Deithwyr hefyd yn ffurfio perthnasau gweithio â chwe phartneriaeth trafndiaeth ranbarthol newydd sefydlu sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros greu strategaethau trafndiaeth ranbarthol gan awdurdodau lleol.

Cymru

Ar 1 Ebrill 2006 dechreuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd cyfrifoldeb dros y rhan fwyaf o faterion reilffordd yng Nghymru, gan gynnwys rheoli masnachfaint Arriva Trains Wales. Wrth ddynesu at y newidiadau ym mhwerau deddfwriaethol, gwnaeth Ffocws ar Deithwyr ymdrech mawr wrth gwrdd ag Aelodau Cynulliad (AC) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion yr oedd teithwyr yng Nghymru yn eu hwynebu. Yr oedd hyn yn cynnwys anfon llythyrau at bob AC, cyflwyno mewn cyfarfod pwyllgor ranbarthol, cyfarfodydd un-i-un gydag aelodau ac ymateb i geisiadau am wybodaeth a chymorth.

Mae'r tirwedd drafnidiaeth newidiol wedi gweld rôl fwyfwy pwysig i bob un o'r consortia trafndiaeth ranbarthol a grëwyd yn ddiweddar, sy'n dod â chynrychiolwyr o bob un o 22 awdurdod lleol yng Nghymru at ei gilydd. Gofynnwyd i bob consortiwm greu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (RTP) erbyn 2008, felly mae Ffocws ar Deithwyr wedi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau reilffordd yn dod i'r blaen yn y rhain – gan dynnu'n helaeth ar ddogfen yr RPC gynt – '*Local Transport Plans - From Strategy to Reality*'.

Bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr AMCAN PUMP

Ein nodau

- datblygu a lansio gwefan newydd
- sicrhau bod barn teithwyr yn cael ei glywed yn y cyfryngau
- sicrhau bod erthyglau am Ffocws ar Deithwyr yn ymddangos yng nghylchgronau cwmnïau trên
- cyhoeddi rhifyn cyntaf bwletin i fuddiolwyr.

Yr hyn a wnaethom

- lansiodd gwefan newydd ar 25 Ionawr 2006
- cafwyd cystadleuaeth genedlaethol i ddod o hyd i bedwar teithiwr i ysgrifennu ar gyfer y wefan newydd
- delio â 553 o geisiadau gan newyddiadurwyr a rhoi 197 o gyfweiliadau a ddarledwyd
- sicrhau i wyth erthygl ymddangos am Ffocws ar Deithwyr mewn cylchgronau cwmnïau trên
- cyhoeddi bwletin i fuddiolwyr
- cynnal digwyddiadau mewn gorsafoedd ar draws y wlad.

Beth fyddwn yn ei wneud 2006-7

- delio â phob ymholiad gan y cyfryngau
- hyrwyddo Ffocws ar Deithwyr ar bosteri mewn gorsafoedd ac ar drenau
- cyhoeddi erthyglau yng nghylchgrawn pob cwmni trên
- cyhoeddi pedwar bwletin i fuddiolwyr
- datblygu ein gwefan ymhellach.

Bydd rhaid i sefydliad effeithiol i ddefnyddwyr feddu ar broffil a bod yn adnabyddadwy i'r bobl y mae'n eu cynrychioli. Er mwyn bod yn ddylanwadol wrth godi materion teithwyr, mae Ffocws ar Deithwyr yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'i rôl er mwyn i fudd-deiliaid ddeall ei ddiben ac yn gwybod sut y gallant weithio gyda Ffocws ar Deithwyr i wella gwasanaethau rheilffordd i deithwyr.

Lleisiau Teithwyr

Bu'n flwyddyn brysur arall i wasanaeth siop un-cam Ffocws ar Deithwyr, sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth i deithwyr. Bu'r llinell gymorth genedlaethol i deithwyr yn delio â dros 13,000 o gysylltiadau ers mis Gorffennaf, gyda 54% o'r rhain yn digwydd dros y ffôn. Yn dilyn hyfforddiant a datblygiad i staff, mae'r llinell gymorth bellach â digon o adnoddau i ddelio ag ymholiadau manwl gan deithwyr ynghylch popeth, o docynnau ac amserlenni i gymorth wrth ddod o hyd i eiddo coll. Mae'r cynnydd mwyaf wedi digwydd mewn cysylltiadau drwy e-bost ac adborth ar-lein, gan adlewyrchu'r ffordd y mae defnyddwyr rheilffordd am gysylltu â Ffocws ar Deithwyr mewn modd ac ar adeg sy'n gyfleus iddynt.

Mae Ffocws ar Deithwyr bellach yn gweithio gyda'r diwydiant rheilffordd i sicrhau bod manylion cyswllt y llinell gymorth i deithwyr ar gael yn rhwydd mewn gorsafoedd, ar drenau ac ar yn neunydd darllen cwmnïau trên eu hunain.

Digwyddiadau mewn gorsafoedd

Gofynnwyd am sylwadau ar orsaf 'newydd' Birmingham New Street ym mis Mawrth. Rhoddodd gwirfoddolwyr gardiau post allan a oedd yn cynnwys 'brasfodel' o orsaf Birmingham New Street fel y mae'n ymddangos erbyn hyn a gyda'i golwg newydd ar gyfer 2013, i gefnogi'r cynlluniau i

ailldatblygu'r orsaf. Gofynnodd y cerdyn post i deithwyr ddweud wrthym yr hyn nad oeddynt yn ei hoffi am yr orsaf bresennol a'r hyn yr oeddynt am ei weld fwyaf yn yr orsaf newydd.

Ar ddechrau 2006, cynhaliodd Ffocws ar Deithwyr sawl digwydd mewn gorsafoedd drwy gydol Prydain i gyflwyno'r sefydliad newydd i deithwyr. Yng ngorsafoedd Manceinion Piccadilly, Caeredin Waverley a Glasgow Canolog, roedd staff ac aelodau, a oedd yn gwisgo crysau chwys ag enw'r sefydliad yn rhoi dros 6,000 o gardiau post '**Gimme 5**' allan, gan ofyn i deithwyr roi pum munud o'u hamser i ateb pum cwestiwn er mwyn gallu ennill talebau'r stryd fawr werth £50.

Fel rhan o arolwg 'ciplun' o deithwyr yng ngorsaf Brighton station, rhoddwyd cardiau post '**wish you were here?**' i deithwyr, gan ofyn iddynt am dri pheth y byddai'n gwella eu taith ar y trên, yn eu barn nhw. Dywedodd hanner y teithwyr yr oeddynt am weld trenau glanach, mwy o le i fagiau a choetsys tawel. Roedd teithwyr hefyd yn gofyn am dechnoleg well ar drenau ac yn awgrymu y byddai socedau pŵer a chyfleusterau diwifr yn gwneud i'w taith yn fwy plaserus.

Yn fyw ac ar-lein

Ym mis Ionawr 2006, lanswyd gwefan newydd Ffocws ar Deithwyr ar www.passengerfocus.org.uk <<http://www.passengerfocus.org.uk>>. Datblygwyd y wefan newydd i gynyddu cysylltiadau gan deithwyr â'r sefydlu gan ddatblygu gwefan rhyngweithiol a hygyrch â ffocws ar ddefnyddwyr. Mae'r wefan wedi'i hysgrifennu er mwyn bod yn ddealladwy ac yn rhwydd i'w defnyddio a chafodd achrediad '**see it right**' gan yr RNIB, sy'n cynrychioli ymroddiad gwefan i arfer gorau hygyrchedd. Erbyn hyn, mae adborth ar y wefan newydd wedi bod yn bositif iawn ac ym mis Mawrth 2006 ynddo'i hun, defnyddiodd dros 42,000 o ymwelwyr y wefan. Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn cael dros 1,000 o ymweliadau ar unrhyw ddiwrnod penodol ac ers i'r wefan gael ei lansio, mae'r cysylltiadau gan deithwyr drwy ein gwefan a thrwy e-bost wedi cynyddu'n sylweddol.

Ochr yn ochr â lansio'r wefan newydd, cynhaliodd Ffocws ar Deithwyr gystadleuaeth genedlaethol yng nghyfres papurau Metro, yn gofyn i deithwyr ddweud mewn llai nag 20 o eiriau pam y dylent gael eu dewis i ysgrifennu dyddiadur ar-lein, neu 'blog' i'n gwefan. Y wobr oedd cael teithio ar y rheilffordd am ddim am flwyddyn. Roedd teithwyr yn gallu cystadlu ar-lein drwy wefan Metro neu drwy ffurflen ar wefan Ffocws ar Deithwyr. Ymddangosodd y gystadleuaeth ar dudalen blaen pob un o ddeg rhifyn y papur newydd sy'n dosbarthu dros filiwn o gopiâu am ddim bob dydd mewn 15 o ddinasoedd ym Mhrydain. Bu'r gystadleuaeth yn denu diddordeb sylweddol gan deithwyr, gyda phedwar teithiwr lwcus o bob rhan o'r wlad yn cael eu dewis a gellir darllen eu 'blog' ar wefan Ffocws ar Deithwyr ar www.passengerfocus.org.uk

Cipio'r penawdau

Datblygodd Ffocws ar Deithwyr broffil da yn y cyfryngau yn ystod 2005-6, yn ymgymryd â 197 o gyfweiliadau a ddarlledwyd yn y cyfryngau o fewn wyth mis. I raddau helaeth, gellir priodoli hyn i gyflwyno swyddog i'r wasg bwrpasol, yn ogystal â rheolwyr cyswllt teithwyr a oedd yn gallu cynrychioli barn teithwyr ar y tir.

Yn enwedig, datblygodd Ffocws ar Deithwyr gysylltiadau da â'r cyfryngau rhanbarthol a lleol, a'r cyfryngau i ddefnyddwyr, gan roi sylwadau i gyfryngau mor wahanol â *Computing Magazine* a'r *Morning Star*. Roedd y materion a oedd yn cipio'r penawdau'n yn cynnwys y canlynol:

- costau teithio a gwerth am arian
- gorlwytho
- diogelwch mewn gorsafoedd
- newidiadau mewn amserlenni

- canlyniadau'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- gwaith peirianeg, yn enwedig yn ystod cyfnodau gwyliau.

Areithiau a digwyddiadau

Bu Ffocws ar Deithwyr yn cynrychioli safbwynt teithwyr mewn mwy na 25 o ddigwyddiadau a chynadleddau drwy gydol 2005-6, gan gynnwys y canlynol

- cynhadledd gorsafoedd rheilffordd y DU – 'yr hyn mae teithwyr am ei gael gan orsafoedd'
- cynnwys teithwyr yng ngwaith cynlluniau mewnol ar drenau – cyflwyniad i'r *'Railway Interiors Expo'* yn Cologne
- cyfarfod *North West Passenger Transport Users Forum* – Ffocws ar Deithwyr a'n strwythur newydd
- Railway Forum/Pinsent Masons - seminar ar Ddeddf Rheilffyrdd 2005
- cyflawni ymagwedd i Reilffordd o dan Arweiniad Cwsmeriaid – *Transport Planning Society North West*
- Transport 2000 – cynhadledd *'Ground floor partners'*
- Gwobrau Rheilffordd Cymunedol – bu Ffocws ar Deithwyr yn noddi gwobr am gyrhaeddiadau staff rheilffordd.

Atodiadau

Atodiad un – Adroddiad y Prif Weithredwr

Dyma'r adroddiad a chyfrifon cyntaf ar gyfer Ffocws ar Deithwyr, sy'n cynnwys y cyfnod o 24 Gorffennaf 2005 hyd 31 Mawrth 2006. Er i'r sefydliad ddod i fodolaeth yn ffurfiol ym mis Gorffennaf, mae'r rhan fwyaf o'r flwyddyn wedi bod yn gyfnod o drawsnewidiad, yn sefydlu ffyrdd newydd o weithio a dechrau rhaglen recriwtio fawr. Mae hefyd wedi bod yn gyfnod llwyddiannus, fel mae'r rhestr hir o gyraeddiadau ar dudalennau 7 i 26 yn dangos.

Natur y busnes

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd, a gafodd ei gyfansoddi'n swyddogol ar 24 Gorffennaf 2005 o ganlyniad Deddf Rheilffyrdd 2005. Yr oedd y ddeddfwriaeth hon yn darparu ar gyfer diddymu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd blaenorol a'r wyth pwyllgor rhanbarthol a noddwyd fel sefydliadau hyd fraich gan yr Awdurdod Rheilffordd Strategol. Crëwyd Ffocws ar Deithwyr fel corff cyhoeddus gweithredol, anadrannol, a noddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae Ffocws ar Deithwyr yn gweithredu o swyddfeydd ym Manceinion a Llundain, gyda gweithwyr o bell yn cysylltu â chwmnïau trên unigol i sicrhau gwelliannau i deithwyr.

Cyllid

Cyllidir y sefydliad drwy Gymorth Grant gan yr Adran Drafnidiaeth a derbyniwyd £4.1 miliwn yn 2005-6, y dyrannwyd £0.8 miliwn ohono ar gyfer gweithio ar yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol a throsglwyddwyd £0.2 miliwn i Gronfa Grant y Llywodraeth yn erbyn symudiadau mewn asedau diriaethol. Ers iddo gael ei ffurfio, cyfanswm y costau yw £3.94 miliwn, y mae £0.6 miliwn ohoni wedi'i defnyddio ar gyfer newid o'r Awdurdod Rheilffordd Strategol i'r strwythur newydd.

Mae'r cyfrif incwm a gwariant yn dangos diffyg o £102,000, yn bennaf oherwydd bod y cymorth grant yn cael ei gyfrif ar sail arian parod, ac ni hawliwyd na derbyniwyd y rhandal Cymorth Grant olaf o £95,000 ar gyfer 2005-06 tan ar ôl diwedd y cyfnod.

Staff

Bu'r newid mwyaf yng ngweithdrefnau mewnol Ffocws ar Deithwyr yn effeithio ar staff. Roedd yn flin gennym weld 35 o aelodau staff yn gadael o ganlyniad y newidiadau i strwythur y sefydliad, er y trosglwyddwyd 25 o aelodau staff i'r corff newydd ar ôl ymarfer paru swyddi. Mae'r staff a arhosodd gyda Ffocws ar Deithwyr yn ystod y trawsnewidiad a'r rheiny a adawodd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr yn haeddu clod mawr a diolch am eu gwaith caled, eu hoptimistiaeth a'u cyfraniadau gwerthfawr at greu sefydliad newydd yn ystod amser llawn cythrwfl. Yn ystod y cyfnod, dechreuom hefyd ymarfer recriwtio mawr; o ganlyniad hwn, ymunodd 17 o aelodau staff newydd â'r sefydliad.

Yn ystod y trawsnewidiad o'r ARhS (SRA), cawsom fforwm trawsnewidiad i staff a roddodd dull o gynnal ymgynghoriad adeiladol â staff ynghylch y materion sylweddol a oedd yn codi yn ystod cyfnod ansicr. Rydym wedi ychwanegu at lwyddiant y fforwm trawsnewidiad i staff drwy gynnal etholiadau i aelodau staff ymuno â fforwm staff er mwyn mynd ymlaen â materion staff a busnes.

Eleni, sefydlwyd bwrdd rheoli gweithredol, gyda phum aelod yn cael eu trosglwyddo drwy baru swyddi neu drwy geisiadau mewnol am swyddi newydd, ac un aelod newydd yn ymuno ar ôl recriwtio agored. Nodir manylion taliadau uwch reolwyr yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 40 i 43.

Rheolaeth gorfforaethol

Sefydlodd Ffocws ar Deithwyr fwrdd newydd o aelodau anweithredol, hefyd, yn dilyn proses gystadlu llawn a reoleiddiwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA). Mae eu bywgraffiadau wedi'u cynnwys yn atodiad dau. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol a phrif bolisiau'r sefydliad, ac am ddarparu rheolaeth gorfforaethol a goruchwyllo'r cyllid a gweithrediadau. Rhoddir manylion y bwrdd a'i bwyllgorau yn sylwadau'r rheolwyr ar dudalennau 37 i 39.

Iechyd a diogelwch

Ein polisi yw darparu amgylchedd diogel ac iach i'n staff a'n hymwelwyr. Mae ein dau ganolfan, yn Llundain a Manceinion, wedi'u hailwampio i ddarparu amgylchedd weithio modern i staff.

Rhoddion elusennol a gwleidyddol

Ni wnaeth Ffocws ar Deithwyr unrhyw roddion gwleidyddol yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn cwis tafarn a raffl ym mis Mawrth 2006, cododd Ffocws ar Deithwyr £1108 at yr elusen 'Railway Children'.

Datguddiadau i archwilwyr

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, hyd yr wyf yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ffocws ar Deithwyr yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Ffocws ar Deithwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Mehefin 2006

Atodiad dau– bywgraffiadau aelodau bwrdd Ffocws ar Deithwyr

Colin Foxall CBE yw cadeirydd Ffocws ar Deithwyr ac mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Radian Asset Assurance Ltd ac yn aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Bu **Jessica Barrow** yn gyfarwyddwr cyfathrebu gydag Age Concern Scotland, ac ar hyn o bryd mae ar secondiad i Uned Pobl Hŷn Gweithrediaeth yr Alban

Bu **David Burton** yn rheolwr gyfarwyddwr Rheilffordd West Anglia Great Northern o 1996 - 1999

Ar hyn o bryd, mae **Brian Cooke** yn gadeirydd London TravelWatch. Bu gynt yn aelod o Bwyllgor Teithwyr Rheilffordd dros Ddwyrain Lloegr ac yn ymgynghorydd yn y diwydiant teithio [*Wedi'i benodi gan Gynulliad Llundain*]

Bu **Philip Davis** yn gadeirydd Pwyllgor Teithwyr Rheilffordd dros Ganolbarth Lloegr a bu'n arweinydd Cyngor Unedol Telford a Wrekin o 2000 i 2004.

Bu **Kate Gordon CBE** yn aelod o Bwyllgor Teithwyr Rheilffordd dros Ddwyrain Lloegr ac yn flaenorol bu'n was sifil yng Ngweithrediaeth Iechyd a Diogelwch

Mae **James King** yn aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Ar ôl gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant hysbysebu, sefydlodd James ei ymgynghoriaeth fusnes strategol a marchnata ei hun ym 1996, y mae'n parhau i'w redeg heddiw. [*Wedi'i benodi gan Weinidogion yr Alban*]

Bu **Christine Knights** yn gadeirydd Pwyllgor Teithwyr Rheilffordd dros Ogledd-Ddwyrain Lloegr. Mae'n aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ac mae ganddi brofiad o ddatblygu sefydliadau i ddefnyddwyr a pholisi defnyddwyr yn Ewrop a'r DU.

Bu **Dr Derek Langslow CBE** yn gadeirydd Pwyllgor Teithwyr Rheilffordd dros Ddwyrain Lloegr ac yn flaenorol bu'n brif weithredwr *English Nature*. Mae'n dal nifer o rolau anweithredol, gan gynnwys aelodaeth o fwrdd British Waterways a Chadeirydd Bwrdd Twristiaeth Dwyrain Lloegr

Bu **Deryk Mead CBE** yn brif weithredwr NCH, yr elusen fwyaf blaengar i blant, o 1996 i 2004 ar ôl gyrfa fel prif swyddog mewn llywodraeth leol.

Bu **Bill Samuel** yn brif weithredwr Asiantaeth Ddatblygu Dwyrain Lloegr ac yn brif weithredwr Cyngor Dinas Peterborough. Mae'n dal nifer o swyddi anweithredol a bu'n aelod o'r Pwyllgor Teithwyr Rheilffordd gynt dros Ddwyrain Lloegr.

Mae **Barbara Saunders OBE** yn ymgynghorydd defnyddwyr annibynnol sy'n meddu ar brofiad o bolisi cyhoeddus yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol ac yn flaenorol, bu'n gadeirydd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Ariannol a Biwro'r Ombwdsmon Yswiriant.

Marc Seale yw prif weithredwr a chofrestrydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd ar hyn o bryd, ac yn flaenorol, bu'n gyfarwyddwr lles y cyhoedd dros y Ganolfan Sgiliau Rheilffordd.

Nigel Walmsley yw cadeirydd Tourism South East a'r Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledu. Yn flaenorol, bu'n gadeirydd Carlton Television a chyn hynny, bu'n brif weithredwr Capital Radio Group.

Noder: Penodwyd Stella Mair Thomas yn aelod bwrdd Ffocws ar Deithwyr ar 8 Mai 2006, fel yr aelod a benodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Atodiad tri - staff

Llundain

Tîm y Prif Weithredwr

Prif weithredwr - Anthony Smith

CP i'r prif weithredwr a'r cadeirydd - Nicola Wilkie

Rheolwr cynllunio busnes - Kafil Badar

Tîm Cyfathrebu

Cyfarwyddwr cyfathrebu - Caroline Jones

Swyddog Cyfathrebu - Pete Biggs

Swyddog y Wasg - Jane Cobell

Tîm polisi ac ymchwil

Cyfarwyddwr polisi ac ymchwil - Vinita Nawathe

Uwch ymgynghorydd polisi - Mike Hewitson

Uwch ymgynghorydd polisi – Philip Wilks

Rheolwr ymchwil teithwyr - Peter Thompson

Ymgynghorydd polisi ac ymchwil - Rachel King

Ymchwilydd teithwyr - David Greeno

Ymchwilydd gwybodaeth a data - Andrew Regan

CP y Tîm Polisi - Emma Brandon

Tîm cyswllt teithwyr - Llundain

Cyfarwyddwr cyswllt teithwyr - Mark Woodbridge

Rheolwr cyswllt teithwyr ('one' and GNER) - Guy Dangerfield *

Rheolwr cyswllt teithwyr (South West Trains) - Jocelyn Pearson *

Rheolwr cyswllt teithwyr (First Capital Connect a Silverlink) - Kerry Williamson *

Rheolwr cyswllt teithwyr (First Great Western) - Michael Greedy *

Rheolwr cyswllt teithwyr (Southern) - Sharon Hedges *

Rheolwr cyswllt teithwyr (c2c a South Eastern) - Tunde Olatunji *

Cydlynnydd prosiect - Jasmin Matharu

Cydlynnydd prosiect - Sultana Idris

CP Cyswllt teithwyr – Rachel Ryall

Manceinion

Tîm Adnoddau

Cyfarwyddwr Cyllid - Nigel Holden

Cydlynnydd Adeiladau a gwasanaethau - Eamon Caughey

Cydlynnydd Cyllid ac AD- Suzette McGhee

Ymgynghorydd cyllid - Shahid Mohammed

Tîm Cyswllt teithwyr - Manceinion

Cyfarwyddwr cyswllt teithwyr - John Mooney

Rheolwr cyswllt teithwyr (Central Trains a Midland Mainline) - Paul Fullwood *

Rheolwr cyswllt teithwyr (Virgin West Coast) - Julie Warburton*

Rheolwr cyswllt teithwyr (Northern, Merseyrail a Hull Trains) - David Sidebottom *

Rheolwr cyswllt teithwyr (Arriva Trains Wales a materion Cymreig) - Simon Pickering *

Rheolwr cyswllt teithwyr (First ScotRail a'r Alban) - Robert Samson *

Rheolwr cyswllt teithwyr (Virgin Cross Country a TransPennine Express) - Susan Tibbett

*

Cydlynnydd prosiect - John Sears

Cydlynnydd prosiect - Katie Springer

CP Cyswllt teithwyr - Beverley Wright

Tîm cyfathrebu

Rheolwr cyswllt teithwyr - Ashley Grumble

Ymgynghorydd cyswllt teithwyr - Clare Morris

Ymgynghorydd cyswllt teithwyr – Fiona Stenhouse

Ymgynghorydd cyswllt teithwyr - Kyle Yeldon

Ymgynghorydd teithwyr - Liz Wilkinson

Ymgynghorydd teithwyr - Catherine Lee

* yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol

Atodiad pedwar – rhestr o'r holl gyhoeddiadau, 2005-6

Gorffennaf 2005

- 'State of the railways': ymchwil gan MORI/Ffocws ar Deithwyr i farnau am y rheilffyrdd

Awst 2005

- 'T-12 fares and ticket availability' – adroddiad prosiect

Tachwedd 2005

- 'How Fair Are Fares?' – tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Dethol ar Drafndiaeth

Ionawr 2006

- Arolwg Teithwyr Cenedlaethol - cam Hydref 2005
- 'Rhoi teithwyr rheilffordd yn gyntaf' – taflen wybodaeth
- Cynllun Corfforaethol 2006-9 – drafft ymgynghori

Chwefror 2006

- Ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch Masnachfaint y De Orllewin a Strategaethau Defnyddio Llwybrau - crynodeb
- South Western Franchise – ymateb i'r ymgynghoriad
- 'South West Mainline' - ymateb i'r Strategaeth ar gyfer Defnyddio Llwybrau Network Rail
- Cerdyn post 'Gimme 5' – '5 minutes of your time to answer 5 questions'
- 'What Passengers Want from Stations' – tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Dethol ar Drafndiaeth

Mawrth 2006

- 'The Brighton mainline Route Utilisation Strategy - making it work for passengers'
- Cerdyn post Brighton – 'Wish you weren't here?'

Atodiad pump – rhestr o ymgynghoriadau yr ymatebwyd iddynt yn 2005-06

Gofynnir i Ffocws ar Deithwyr yn rheolaidd gyfrannu at ymgynghoriadau'r diwydiant i roi safbwynt teithwyr am newidiadau arfaethedig neu ar ddatblygiadau i wasanaethau.

Dyma'r ymgynghoriadau y mae Ffocws ar Deithwyr wedi ymateb iddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Dogfen	Sefydliad cyhoeddi
Arweiniad i Awdurdodau Lleol yn ceisio am gyllid yr Adran Drafndiaeth ar gyfer Cynlluniau Mawr	DfT
Canllawiau cynllunio ariannol i LTPau	DfT
<i>How fair are fares? Train fares and ticketing</i>	Pwyllgor Trafnidiaeth
TWA 1992: Ymarfer ymgynghori ar wella proses y TWA	DfT
<i>Accessibility for People with Reduced Mobility</i> – ymateb RPC i wahoddiad yr Adran Drafndiaeth i roi sylwadau ar Fanyleb yr UE ar y Gallu i Ryngweithredu	DfT
<i>DTI Consumer Protection Co-operation</i>	DTI
Rheoleiddiad yr UE ar Ddiogelu Defnyddwyr	UE

Cynllun Diogelwch Strategol 2006 - fframwaith	RSSB
<i>Abandoning of existing schemes through lack of communication for proposals under ROTS</i>	HSE
Cynllun Diogelwch Strategol 2006 - drafft 1	RSSB
Manyleb Dechnegol ar gyfer y Gallu i Ryngweithredu : Diogelwch mewn Twneli Rheilffordd - drafft C	AEIF
Cyfraniad yr HSE i Strategaeth Iechyd a Diogelwch ORR	HSE
<i>Amendment of Railway Group Standards Code</i>	RSSB
<i>Exemption from RSR regarding operation of Mark 1 stock on Lymington branch</i>	HSE
Arolwg o'r gofrestr ymgynghori ar gyfer yr RGS	RSSB
Cyfuno gwefannau rheilffordd ORR a HSE	HSE/ORR
Ymchwil i arwyddion a chyfeiriadau mewn gorsafoedd: ymarfer presennol ac ymgynghoriad â budd-deiliaid	RSSB
Ymchwil i arwyddion a chyfeiriadau mewn gorsafoedd: asesiad o'r potensial ar gyfer newidiadau	RSSB
Datganiad ar Bolisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch	ORR
<i>Railway Interoperability - Consolidated Regulations and the Interface with Railway Safety Legislation – dogfen ymgynghori</i>	DfT
Cynllun Busnes Drafft RSSB 2006-09	RSSB
Cyllideb Ddrafft RSSB 2006-07	RSSB
Rheoliadau Drafft Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi ar gyfer y Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Berthnasol Eraill)	DfT
Rheoliadau Drafft Ardoll Diogelwch y Rheilffyrdd	DfT
Strategaeth Ddefnyddio Prif Linell y De Orllewin	Network Rail
Dogfen Ymgynghori ar Fasnachfaint y De Orllewin	DfT
Strategaeth Ddefnyddio Llinell Draws Lundain ar y cyd ag LTW)	Network Rail
<i>Community Line designation for Island Line</i>	DfT
Meini prawf diwygiedig ar gyfer cymeradwyo contractau mynediad i draciau	ORR
Gorfodi trwyddedau a gosod cosbau ariannol	ORR
<i>Diwygio'r Llyfr Rheolau (ymchwilio i wallau AWS/TPWS a adroddwyd, defnyddio signalau goleuadau safle, stopio trenau eraill pan fydd angen i yrwyr gerdded ar linellau rhedeg, a gweithrediadau pan welir bod clwydi croesfannau gwastad wedi'u gadael ar agor)</i>	RSSB
Cais am Drwydded - First GNTL	ORR
Cais am Drwydded - Greater Western	ORR
Cais am Drwydded - Llundain a'r De Ddwyrain	ORR
Ymgynghoriad ar Gapasiti ECML	Network Rail
<i>EU Public Passenger Transport Services by Rail and Road</i>	DfT
Gwerthu tir – Chard Junction	BRB
<i>Track Access – ATW 10th supplementary</i>	ORR
<i>Track Access – ATW 12th supplementary</i>	ORR
<i>Withdrawal of RGS on Provision, Review and Risk Assessment of Level Crossings (a'r Nodyn Arweiniad cysylltiedig)</i>	RSSB
<i>Minimisation of Accidents at the Platform Interface : Preliminary Technical Report - drafft</i>	RSSB
<i>Wayfinding at Stations : A Good Practice Guide (drafft)</i>	RSSB

Ailbenodi'r Cyfarwyddwr anweithredol i Fwrdd yr RSSB	RSSB
<i>Updating our Corporate Strategy - ymgynghoriad</i>	ORR
Track access – Cotswold Rail	ORR
Track access – West Coast Railway	ORR
<i>Closure Guidance: yr Adran Drafnidiaeth a Gweithrediaeth yr Alban</i> DfT	DfT/Gweithrediaeth yr Alban
<i>Rule Book Amendments Module Consultation</i>	RSSB
<i>Minimisation of Accidents at the Platform Train Interface - Review of Safety Principles & Guidance, Railway Group Standards, other supporting documentation and European TSIs (draft)</i>	RSSB
Transportation of Railway Safety Directive to the Channel Tunnel	DfT
Arolwg o Heddlu Trafnidiaeth Prydain	DfT
<i>The Railways and Other Guided Transport Systems (Safety) Regulations 2006: Guidance on Regulations</i>	HSE
<i>Unfair Commercial Practices Directive</i>	DTI
<i>Glasgow Airport Rail Link</i>	Gweithrediaeth yr Alban
Diogelwch Personol – Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth	Pwyllgor Trafnidiaeth
<i>Track Access - Chiltern 22nd agreement</i>	ORR
<i>Track Access - Southern 7th supplementary agreement</i>	ORR
<i>Track Access - Wessex 10th</i>	ORR
<i>Scotland's Transport Future: Draft Guidance on Regional Transport Strategies</i>	Gweithrediaeth yr Alban
<i>Scotland's Transport: Proposals For A Public Transport Users' Committee</i>	Gweithrediaeth yr Alban
<i>A New Approach to Delivering Public Transport Developments</i>	Gweithrediaeth yr Alban
Ymgynghoriad ar warediad tir Network Rail yn Bridgwater	ORR
<i>Track Access - Chiltern 19th agreement</i>	ORR
Ymgynghoriad ar Wales and West Passenger Trains Limited – 10 ^{fed} cytundeb atodiadol	ORR
Ymgynghoriad ar warediad tir Network Rail yn Bridgwater	ORR
Ymgynghoriad ar y 9 ^{fed} Cytundeb Atodiadol SG arfaethedig i'r Cytundeb Mynediad i Draciau rhwng Network Rail Infrastructure Limited a First Great Western Link Limited	ORR
Cynnig gwerthu tir yn Yatton, ar ochr de'r rheilffordd	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Melksham	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Plymouth, Cilffyrdd Marshall Road gynt	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Westerleigh, Tir ger Terfynell Olew	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Theale, Tir i Ogledd yr Orsaf ger yr A4	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Hungerford, Tir y tu hwnt i Faes Parcio'r Orsaf	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Swindon, Cilffyrdd gynt	PRG
Ymgynghoriad Cyhoeddus – Ymateb i Amserlen First Great Western	First Great Western
Cynnig gwerthu tir yn Chard Junction, Rhan o Iard Nwyddau gynt	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Cholsey, Iard Glo	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Alloa	PRG
Cynnig gwerthu tir ym Mlaenau Ffestiniog	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Boston	PRG

Cynnig gwerthu tir yn Carnforth	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Coleshill	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Abergwaun	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Godley	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Law	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Leamington Spa	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Lenzie	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Market Harborough	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Stafford	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Stapleford	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Sunderland	PRG
Cynnig gwerthu tir yn Wilnecote	PRG
Cais am gaead mân - Cyfleusterau Seiclo yng Ngorsaf Redruth	Wessex Trains
Ymgynghoriad ar Warediad Tir Network Rail yn Bridgwater	ORR
Y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymgynghoriad ar Gostau Teithio West Coast – newidiadau i'r amserlen	Virgin Trains
<i>Anticipated acquisition by National Express Group Plc of the Thameslink and Great Northern franchise</i>	Y Comisiwn Cystadlu
Cynnig gwerthu tir yn Whittlesea, Awst 2005	BRB (Residuary) Ltd
Cynnig gwerthu tir yn Wymondham, Awst 2005	BRB (Residuary) Ltd
Cynnig ynghylch costau teithio Ionawr 2006	c2c
<i>Proposed Thameslink/Great Northern track access contract (Schedule 5)</i>	ORR
<i>Penalty Fares Scheme: Ipswich-Norwich Extension Proposal</i>	one
<i>Track Access Applications on ECML, GNER, Hull Trains, Grand Central "minded to approve" decision</i>	ORR
Diwygiadau i Weithdrefn Trafod Cwynion	one
<i>Proposed Passenger's Charter for First Capital Connect</i>	FirstGroup
<i>Proposed Complaints Handling Procedure for First Capital Connect</i>	FirstGroup
<i>New range of Advance Purchase fares</i>	one
Cynnig gwerthu tir yn Alresford, Mawrth 2006	BRB (Residuary) Ltd
<i>Proposed Penalty Fares scheme for First Capital Connect, March 2006</i>	FirstGroup
<i>A Transport Strategy for Mid Suffolk, March 2006</i>	Mid Suffolk District Council
<i>Passenger issues relating to trains stranded in hot conditions without functioning air conditioning, March 2006</i>	RSSB
<i>Railways for All</i>	SRA
<i>Impact of Lowestoft town centre regeneration on railway station, March 2006</i>	1st East Waterfront Regeneration Company
Ymgynghoriad ar Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) - Southeastern	DfT
Ymgynghoriad ar Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) - First Capital	DfT

Connect	
Ymgynghoriad ar Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) - First Great Western	DfT
Ymgynghoriad ar Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) – Advenza Freight	DfT
Ymgynghoriad ar Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) y - North Yorkshire Moors Railway	DfT
Ymgynghoriad ar Siatr y Teithwyr - Southeastern	DfT
Ymgynghoriad ar Siatr y Teithwyr - First Capital Connect	DfT
Ymgynghoriad ar Siatr y Teithwyr - First Great Western	DfT
Ymgynghoriad ar Siatr y Teithwyr - Advenza Freight	DfT
Ymgynghoriad ar Siatr y Teithwyr – North Yorkshire Moors Railway	DfT

Geirfa o sefydliadau cyhoeddi

AEIF - Cymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Gallu Rhyngweithredu'r Rheilffyrdd
BRB – Bwrdd Rheilffyrdd Prydain
BTP – Heddlu Trafnidiaeth Prydain
DfT – Yr Adran Drafndiaeth
DTI – Yr Adran Masnach a Diwydiant
EU – Yr Undeb Ewropeaidd
Govt – Llywodraeth
HSE – Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
OFT – Y Swyddfa Masnachu Teg
ORR – Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd
RAIB – Bwrdd Ymchwilio Damweiniau
RSSB – Bwrdd Diogelwch a Safonau'r Rheilffyrdd
PRG – Property Review Group
SRA – Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

Atodiad chwech – sylwadau'r rheolwyr

Natur y busnes

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd a sefydlwyd ar 24 Gorffennaf 2005 gan Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Mae Ffocws ar Deithwyr yn cynrychioli budd teithwyr rheilffordd yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn gorff cyhoeddus anadrannol, ac fe'i noddir a'i cyllidir gan Gymorth Grant gan yr Adran Drafndiaeth.

Bwrdd

Penodwyd aelodau anweithredol y bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth (cadeirydd a ddim mwy na 12 aelod), Cynulliad Cenedlaethol Cymru (un aelod), Gweinidogion yr Alban (un aelod) a Chynulliad Llundain (un aelod) yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Rhestrir aelodau isod:

	Dyddiad cychwyn y penodiad	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Taliadau
C Foxall (Cadeirydd)*	23 Medi 2005	√		

J K Barrow	24 Gorffennaf 2005	√	√	
D H Burton	24 Gorffennaf 2005	√	√	
B Cooke	24 Gorffennaf 2005	√		
P M Davis	24 Gorffennaf 2005	√		
K Gordon	24 Gorffennaf 2005	√		√
C E Knights	24 Gorffennaf 2005	√		
J A King	24 Gorffennaf 2005	√		
D Langslow (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio)	24 Gorffennaf 2005	√	√	
D Mead	24 Gorffennaf 2005	√	√	
W E Samuel	24 Gorffennaf 2005	√		
B Saunders	24 Gorffennaf 2005	√		
M J Seale	24 Gorffennaf 2005	√		√
N Walmsley (Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau)	24 Gorffennaf 2005	√		√

**Penodwyd y cadeirydd fel cadeirydd dros dro o 24 Gorffennaf 2005. Yn dilyn proses recriwtio a dethol fe'i penodir yn gadeirydd o 23 Medi 2005. Ataliwyd ei aelodaeth o'r bwrdd yn ystod y cyfnod pan ddalodd Swydd y cadeirydd dros dro ac yn dilyn ei benodiad fel cadeirydd, ymddiswyddodd fel aelod o'r bwrdd.*

Mae gan y bwrdd gyfrifoldeb gorfforaethol dros sicrhau bod Ffocws ar Deithwyr yn cyflawni'r nodau ac amcanion a gytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac am hybu'r defnydd effeithiol ac effeithlon o staff ac adnoddau eraill gan Ffocws ar Deithwyr.

Prif bwrpas y pwyllgor archwilio yw cefnogi Ffocws ar Deithwyr ar bob mater sy'n perthyn i reolaeth gorfforaethol, rheolaeth gyllidol ac i oruchwylio'r broses archwilio fewnaol ac allanol (gan gynnwys y Datganiad ar Systemau o Reolaeth Fewnol). Bydd hyn yn golygu darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i'r prif weithredwr wrth ymgymryd â swydd Swyddog Cyfrifyddu.

Prif bwrpas y pwyllgor taliadau yw cefnogi Ffocws ar Deithwyr ar bob mater sy'n perthyn i dâl a pholisi graddio a thelerau cyflogaeth.

Y flwyddyn bresennol

Cyn 24 Gorffennaf 2005 ymdrinnir â Ffocws ar Deithwyr fel adran yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ac fe'i cynhwyswyd yn eu cyfrifon hyd y dyddiad hwnnw. Ers iddo gael ei sefydlu fel corff cyhoeddus anadrannol, mae Ffocws ar Deithwyr wedi creu ei weithdrefnau a'i systemau cyfrifyddu ei hun.

Ar 24 Gorffennaf 2005 trosglwyddodd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol werth cyfalaf y gwelliannau i'r brydles a oedd wedi'i ddibrisio ar gyfer swyddfeydd yn Llundain a Manceinion i Ffocws ar Deithwyr yn ogystal â dyledwyr o ran blaensymiau ar gyfer tocynnau tymor i staff. Ni throsglwyddydd unrhyw asedau na rhwymedigaethau eraill i Ffocws ar Deithwyr.

Trosglwyddwyd yr asedau i Ffocws ar Deithwyr ar werth £103,000, a oedd gwerth llyfr net yr asedau ar 24 Gorffennaf 2005 fel y'i dangoswyd yng nghyfrifon yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

Nid oedd angen y gwelliannau yn yr adeiladau pryddles o 31 Mawrth 2006 ymlaen, ac maent wedi'u dileu.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad y prif weithredwr, aeth y sefydliad i gostau o £3.94 miliwn yn yr wyth mis ers mis Gorffennaf 2005, y mae £0.6miliwn ohonynt wedi'i defnyddio ar gyfer y trawsnewidiad i'r strwythur newydd. Mae'r costau wedi'u cyllido drwy Gymorth Grant a dderbyniwyd gan yr Adran dros Drafnidiaeth sy'n noddi Ffocws ar Deithwyr.

Staff

Yn ystod y cyfnod trosglwyddyd 25 o aelodau staff o'r Awdurdod Rheilffordd Strategol yn dilyn ymarfer paru swyddi, a recriwtiwyd 17 o aelodau staff eraill.

Yn ystod y trawsnewidiad o'r SRA yr oedd fforwm trawsnewid i staff a ddefnyddiwyd fel fforwm ymgynghori â staff ar y prif faterion a oedd yn codi o'r rhaglen drawsnewid. Parhawyd â'r ymagwedd fforwm hon yn y sefydliad newydd, gydag etholiadau'n cael eu cynnal i aelodau staff ymuno â fforwm staff i fynd ymlaen â materion sy'n ymuned â staff a'r sefydliad.

Yr ydym yn ymroddedig i gyfleoedd cyfartal i'n holl staff, ac nid ydym yn cydoddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, tarddiad cenedlaethol, lliw, crefydd, anabledd, statws priodasol, oedran na chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn awyddus i ddarparu ystod o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad i'n staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Yn ystod y cyfnod, rydym wedi gwario £109,000 i gefnogi perfformiad gwell gan staff.

Adnoddau

Cryfder allweddol y sefydliad yw'r dylanwad mae'n gallu ei gael drwy'r wybodaeth a'r medrusrwydd y mae wedi'u hennill drwy ymchwil teithwyr wedi'i dargedu, a thrwy weithio'n agos â budd-deiliaid allweddol yn y diwydiant rheilffordd.

Prif ased Ffocws ar Deithwyr yw ei staff ac ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr staff i wella'r fframweithiau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i feddu ar y sgiliau a'r medrusrwydd iawn i gyflawni amcanion y cynllun corfforaethol yn y dyfodol.

Blynyddoedd yn y dyfodol

Mae'r cynllun corfforaethol yn gosod allan cynlluniau Ffocws ar Deithwyr at y dyfodol o gyflawni ein cenhadaeth o 'gael dêl well i deithwyr'.

Mae'r sefydliad wedi cytuno cyllid o £5.5 miliwn ar gyfer 2006-07 a £5.3 miliwn ar gyfer 2007-08 gan yr Adran Drafnidiaeth a bydd yn cyflwyno cynlluniau diwygiedig i gefnogi trefniadau cyllido ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol.

Materion cymdeithasol ac amgylcheddol

Fel yr esboniwyd yn adroddiad y prif weithredwr, nid yw'r sefydliad yn gwneud rhoddion i elusennau, ond yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyflenwadau swyddfa gweddill i sefydliadau dielw i'w defnyddio yn y DU a thramor.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn annog staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bynnag sy'n bosibl pan fyddant yn ymgymryd â busnes swyddogol, ac mae'n gweithio gyda chynrychiolwyr staff i annog ailgylchu yn y swyddfeydd.

Trefniadau cytundebol hanfodol

Mae'r prif drefniadau cytundebol i'r sefydliad ar gyfer ymchwil teithwyr rheilffordd, gan gynnwys yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, a'r cyngor i deithwyr a ddarperir drwy'r ganolfan alwadau sydd wedi'i hallanoli.

Trosglwyddwyd cytundebau cyfodol ar gyfer yr NPS a'r ganolfan alwadau a allanolwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a chânt eu rheoli drwy adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth, ac maent wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'r sefydliad newydd. Caiff y contractau eu hail-dendro pan fyddant yn cyrraedd diwedd y cyfnod presennol.

Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae gwaith Ffocws ar Deithwyr yn dibynnu'n sylweddol ar ei gredadwyedd a pheidio â chynnal enw da'r sefydliad yw'r prif risg, a fydd yn lleihau ei allu i ddylanwadu ar fudd-deiliaid allweddol i sicrhau gwelliannau i deithwyr rheilffordd. Er mwyn lleddfu'r risg hwn, mae'r sefydliad wedi sefydlu model risg menter, a ddefnyddir i ganfod a fydd prosiect neu ddarn o waith yn peryglu enw da Ffocws ar Deithwyr ai peidio, ymhlith pethau eraill.

Strwythur ariannol y busnes

Cyllidir Ffocws ar Deithwyr gan Gymorth Grant gan yr Adran Drafnidiaeth. Gwnaethpwyd taliad cychwynnol er mwyn rhoi cyfalaf gweithio i'r sefydliad. Gwnaethpwyd taliadau misol ers hynny gan yr Adran yn seiliedig ar wariant gwirioneddol yn y mis blaenorol, ac maent yn rhagweld gofyniadau yn y dyfodol. Fel yr adroddwyd uchod, mae Ffocws ar Deithwyr wedi cytuno ei ofyniadau cyllido gyda'r DfT ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ac yn ystod y deuddeg mis nesaf, bydd yn cyflwyno cynlluniau bras ar gyfer gofyniadau cyllido yn y dyfodol.

Busnes hyfyw

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw er gwaethaf y rhwymedigaethau net cyfredol o £94,000 fel y dengys y fantolen ar 31 Mawrth 2006, oherwydd caiff y rhwymedigaethau eu cyllido gan Gymorth Grant a dderbynnir ar ôl diwedd y flwyddyn.

ADRODDIAD TALIADAU AR GYFER Y CYFNOD YN GORFFEN 31 MAWRTH 2006

Aelodau'r pwyllgor taliadau yw N Walmsley (cadeirydd), K Gordon ac M J Seale.

Mae'r pwyllgor taliadau yn ystyried y canlynol:

- y strwythur dâl a graddio gyfan ar gyfer cyflogeion Ffocws ar Deithwyr
- cynyddrannau costau byw a pherfformiad blynyddol
- unrhyw newidiadau arfaethedig i delerau ac amodau cyflogaeth cyflogeion Ffocws ar Deithwyr
- unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau pensiwn galwedigaethol
- y polisi bras ar gyfer talu staff gweithredol
- trefniadau tâl unigol ar gyfer staff gweithredol, a chymeradwyo unrhyw gynigion am newidiadau dilynol i'r trefniadau hynny.

Cytunir unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl aelodau'r bwrdd rhwng cadeirydd y bwrdd a'r Adran Drafnidiaeth. Ni fu unrhyw newidiadau yn nhâl aelodau'r bwrdd yn y cyfnod.

Mae aelodau'r bwrdd rheoli gweithredol yn gyflogeion Ffocws ar Deithwyr ac mae ganddynt gcontractau cyflogaeth parhaus. Mae'r trefniadau ar gyfer newidiadau i dâl aelodau'r bwrdd rheoli gweithredol yr un fath â'r rhai ar gyfer cyflogeion eraill y sefydliad.

Ni ddyrannwyd dim tâl ychwanegol i unrhyw gyflogeion nac aelodau'r bwrdd rheoli yn y cyfnod ers i'r sefydliad gael ei ffurfio ar 24 Gorffennaf 2005.

Aelodau'r Bwrdd

Nodir y taliadau a delir i'r aelodau bwrdd anweithredol o'u dyddiad penodi hyd 31 Mawrth 2006 isod.

	Ffioedd a dalwyd i'r Bwrdd yn y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2006 £000oedd	Dyddiad cychwyn y penodiad	Dyddiad gorffen y penodiad
C Foxall (cadeirydd) ¹	17	23 Medi 2005	22 Medi 2009
J K Barrow	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
D H Burton	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
B Cooke ²	-	24 Gorffennaf 2005	30 Medi 2008
P M Davis	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
K Gordon	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
C E Knights	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
J A King	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
D Langslow (cadeirydd y pwyllgor archwilio)	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
D Mead	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
W E Samuel	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
B Saunders	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
M J Seale	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
N Walmsley (cadeirydd y pwyllgor tâl)	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009

¹ Penodwyd Mr C Foxall yn gadeirydd dros dro o 24 Gorffennaf 2005. Yn dilyn proses recriwtio a dethol, fe'i penodwyd yn gadeirydd o 23 Medi 2005

² Penodir Mr B Cooke gan Gynulliad Llundain ac nid yw'n derbyn unrhyw ffioedd gan Ffocws ar Deithwyr am y penodiad hwn

Mid yw'r tâl a ddangosir yn y tabl yn cynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n daladwy gan Ffocws ar Deithwyr o ran y penodiadau hyn.

Nid yw Ffocws ar Deithwyr yn gwneud unrhyw ddarpariaeth pensiwn dros aelodau'r bwrdd, ac ni ddarparwyd unrhyw fudd-daliadau trethadwy eraill ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y cyfnod.

Mae gan bob aelod o'r bwrdd gyfnod rhybudd o dri mis, ac nid oes telerau ad-daliadau ar gyfer terfyniad cynnar yn eu cytundebau.

Bwrdd rheoli gweithredol

Nodir y tâl y mae'r bwrdd rheoli gweithredol yn ei gael, yn ogystal â'u buddion pensiwn, isod.

Enw a theitl	Dyddiad cychwyn	Cyflog mewn bandiau o £5,000 oedd	Cyflog 2005-06 cyfwrth â blwydyn lawn mewn bandiau o £5,000 oedd	Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn gysylltiedig â phensiwn yn 60 oed, (£2,500) £000oedd	Pensiwn cronodig yn 60 Mawrth a chyfandaliad cysylltiedig (£2,500) £000oedd	Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol ar 31 Mawrth 2006 £000oedd	Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol Ddyddiad Cychwyn (i'r £000oedd agosaf)	Cynnydd real mewn Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol (i'r £000oedd agosaf)
A Smith	25	55-60	80-85	0-2.5	7.5-10	125	93	12
Prif Weithredwr	Gorffennaf 2005			(Amh.)	(Amh.)			
C Jones	25	35-40	50-55	0-2.5	5-7.5	45	25	12
Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Gorffennaf 2005			(Amh.)	(Amh.)			
N R Holden	7 Medi 2005	30-35	50-55	0-2.5	0-2.5	7	-	6
Cyfarwyddwr Cyllid				(Amh.)	(Amh.)			
J Mooney	25	35-40	50-55	0-2.5	0-2.5	18	11	8
Cyfarwyddwr Cyswllt Teithwyr	Gorffennaf 2005			(Amh.)	(Amh.)			
V Nawathe	25	25-30	40-45	0-2.5	2.5-5.0	60	39	9
Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil ¹	Gorffennaf 2005			(0-2.5)	(12.5-15.0)			
M Woodbridge	25	35-40	50-55	0-2.5	0-2.5	21	10	7
Cyfarwyddwr Cyswllt Teithwyr	Gorffennaf 2005			(Amh.)	(Amh.)			

¹ Mae V Nawathe yn gweithio'n rhan-amser (pedwar diwrnod yr wythnos)

Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau; goramser; hawliau a gedwir i bwysoliad Llundain neu lwfansau; lwfansau recriwtio a dethol; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfansau eraill sy'n drethadwy yn y DU.

Ni dderbyniwyd dim buddiannau mewn nwyddau neu fuddiannau nad ydynt yn arian parod gan y bwrdd rheoli gweithredol yn ystod y cyfnod.

Mae'r holl gyfarwyddwyr yn aelodau'r Cynlluniau Pensiwn *Classic*, *Premium* neu *Classic Plus*, y mae'r prif ddarpariaethau wedi'u nodi isod.

Pensiwn

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun budd-dal diffiniedig sy'n seiliedig ar 'gyflog terfynol statudol (*Classic*, *Premium* a *Classic Plus*). Nid yw'r cynlluniau wedi'u cyllido, a thelir costau'r budd-daliadau gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau *Classic*, *Premium* a *Classic Plus* bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall hawlwr newydd o 1 Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r cynllun *Premium* neu ymuno â threfniant cyfranddeiliaid 'prynu arian' o safon gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn Partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig wedi eu gosod ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiwn ar gyfer y cynllun *Classic* a 3.5% ar gyfer y cynlluniau *Premium* a *Classic Plus*. Gyda'r cynllun *Classic*, mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd 1/80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm un taliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Gyda'r cynllun *Premium*, mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun *Classic*, nod oes yna swm un taliad awtomatig (ond gallai aelodau ildio (gymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu swm un taliad). Amrywiad o *Premium* yw *Classic Plus* yn ei hanfod, ond gyda budd-daliadau o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn gyffredinol debyg i'r cynllun *Classic*.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr cyflogedig. Nid oes rhaid i'r gweithiwr cyflogedig gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr)/ Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeol oherwydd iechyd gwael).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV)

CETV yw gwerth cyfalaf asesedig actiwari y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisir yw budd-daliadau cronedig aelod ac unrhyw bensiwn priod dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw'r taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnir yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth lwyr o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth ar y lefel uwch y mae'r datganiad yn gymwys iddo'n unig.

Mae'r ffigurau CETV, a manylion pensiwn eraill o 2003-2004, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi ei drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a lle mae'r Bleidlais Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo amdano sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a dybir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dâl pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd gwasanaeth pensiwn ychwanegol yn eu cynllun gyda'u harian eu hunain. Cyfrifir CETV gyda'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadrn yr Actiwariaid.

Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd yn y pensiwn cronodig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin ar gyfer gwerthuso'r farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Mehefin 2006

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Dan baragraff 8(2) Atodiad 5 Deddf Rheilffyrdd 2005, mae'r Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd y Trysorlys, wedi gofyn i Ffocws ar Deithwyr baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronïadau, a rhaid iddynt roi barn wir a theg am amgylchiadau Ffocws ar Deithwyr ar ddiwedd y flwyddyn ac am ei incwm a'i wariant, cyfanswm ei enillion a'i golledion a llif arian ar gyfer y cyfnod ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, gofynnir i Ffocws ar Deithwyr gydymffurfio â gofyniadau Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, ac yn anad dim, wneud y canlynol:

- gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a gafodd safon cyfrifyddu addas fel y nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wryiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Ffocws ar Deithwyr yn parhau i weithredu.

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr, Rheilffyrdd, wedi penodi Prif Weithredwr Ffocws ar Deithwyr yn Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano ac am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Ffocws ar Deithwyr, yn cael eu nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a ddisberthir gan y Trysorlys ac a'i gyhoeddi yn *'Government Accounting'*.

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad fel a osodir gan Ddatganiad y Rheolwyr a'r Memorandwm Ariannol wrth warchod y cyllid cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd imi drwy Government Accounting. Rwyf yn atebol i un o Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yr Adran Drafnidiaeth ac i'r Senedd am sicrhau gwerth am arian, rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth ddefnyddio holl adnoddau'r sefydliad.

Cefnogir Ffocws ar Deithwyr gan aelodau bwrdd sy'n gyfrifol am y canlynol:

- gosod strategaethau'r sefydliad a galluogi fframweithiau
- monitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau cynlluniau gwaith
- nodi'r gweithgareddau canolog angenrheidiol ar gyfer cefnogi cyflawni'r cynllun corfforaethol a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol
- gwerthuso effaith materion sydd ar y gweill neu ddargyfeiriadau sylweddol o gyflawni'n gorfforaethol a darparu cynlluniau gwaith

Mae'r bwrdd yn cael ei gadeirio gan berson penodedig anweithredol ac mae'n cynnwys 13 o aelodau anweithredol. Sefydlwyd pwyllgor archwilio i gynorthwyo'r prif weithredwr gyda monitro ac adolygu'r digonolrwydd a'r effeithiolrwydd y canlynol yn y sefydliad:

- trefniadau llywodraethu corfforaethol
- prosesau ar gyfer rheoli risgiau
- archwiliad mewnol a gweithgarwch perthnasol
- ymatebion rheolwyr i'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio mewnol
- Datganiadau'r Swyddog Cyfrifyddu ar reolaeth fewnol.

Mae'r prif weithredwr ac uwch reolwyr Ffocws ar Deithwyr yn cyfarfod ag uwch swyddogion o'r Adran Drafnidiaeth yn rheolaidd. Fel arfer, mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn chwarterol, ac mae'r materion sy'n cael eu trafod yn cynnwys perfformiad yn erbyn cynlluniau gweithredol, gwariant ariannol a datblygu polisi. Yn ogystal, mae cadeirydd Ffocws ar Deithwyr yn cyfarfod â Gweinidogion yn rheolaidd.

Diben y system reolaeth fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na chael gwarded ar bob risg rhag peidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, gall ddarparu sicrwydd rhesymol er nad llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Er i Ffocws ar Deithwyr ddod i fodolaeth o 25 Gorffennaf 2005, gyda nifer o staff dros dro a staff parhaol yn defnyddio systemau a oedd yn bod yn barod yn hen swyddfeydd y Cyngor Teithwyr Rheilffordd, ni ddechreuodd ddatblygu ei brosesau rheolaeth fewnol ei hun tan ail hanner y flwyddyn ariannol 2005-06, gan gynnwys rhoi safonau rheoli a sicrwydd ar waith. Mae'r prosesau hyn yn cael eu hymgorffori, a chânt eu harolygu a'u mireinio yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07 i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofyniadau rheoli i'r dim erbyn 31 Mawrth 2007.

Y gallu i ymdopi â risg

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb i adolygu ein gallu i ymdopi â risg. Er mwyn sicrhau hyn, mae Ffocws ar Deithwyr wedi datblygu'r gweithdrefnau canlynol ac yn eu gweithredu:

- Polisi rheoli risg sy'n adlewyrchu pwrpas ac ymagwedd sylfaenol i reoli risg a rôl y staff a'r uwch dîm rheoli, a ddarperir i staff ar y fewnwyd
- Cofrestr risg y sefydliad sy'n nodi'r prif risgiau gweithredol a ddyrennir i 'berchenogion risg' unigol. Mae'r Gofrestr Risg y mae Ffocws ar Deithwyr wedi'i gweithredu yn cynnwys lleddfu gweithrediadau i ddileu'r risg hwn neu ei leihau a chaiff ei hadolygu am effeithiolrwydd yn gyfnodol
- Hyfforddiant ar gyfer yr uwch dîm rheolwyr a datblygu cofrestr risgiau strategol.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae fframwaith rheoli risg Ffocws ar Deithwyr yn ystyried y Cod Ymarfer Da ar Lywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, ac fe'i gweithredir drwy'r canlynol:

Y Bwrdd

Mae'r bwrdd yn cynnwys cadeirydd anweithredol a thri aelod anweithredol ar ddeg, a chyfarfu saith gwaith yn ystod y cyfnod i wneud y canlynol:

- Ystyried a chymeradwyo cynlluniau gwaith Ffocws ar Deithwyr ar gyfer y cyfnod gan gynnwys dyrannu adnoddau i gyflwyno'r cynlluniau hynny
- Monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau gwaith ar gyfer y cyfnod drwy adroddiadau rheolaidd gan y bwrdd rheoli
- Ystyried adroddiadau ariannol rheolaidd
- Ystyried a chymeradwyo polisiau a gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan Ffocws ar Deithwyr ystyried a chymeradwyo gwariant yn unol â'r polisi caffael a fabwysiadwyd gan Ffocws ar Deithwyr.

Y pwyllgor archwilio

Mae'r pwyllgor archwilio'n cynnwys pedwar anweithredol, a chyfarfu dair gwaith yn ystod y cyfnod i ystyried y canlynol:

- Yr adroddiadau ariannol chwarterol
- Y polisiau a'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan Ffocws ar Deithwyr
- Y gweithgarwch a gynlluniwyd a chanlyniadau'r archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol a chyrrff eraill
- Digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan yr archwiliad a chyrrff adolygu eraill yn chwarterol.

Rhoddodd cadeirydd y pwyllgor archwilio adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd ynghylch gweithgareddau'r pwyllgor archwilio ac unrhyw gasgliadau o ran rheolaeth fewnol.

Archwiliad mewnol

Mae'r archwilwyr mewnol yn adrodd i'r pwyllgor archwilio ac yn cytuno rhaglen dreigl o archwilio ar gyfer pob blwyddyn sy'n dod yn unol â blaenoriaethau'r bwrdd. Gwneir adroddiadau archwilio rheolaidd, yn ogystal â'r adroddiad blynyddol yn dilyn yr archwiliad mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, fel y diffinnir gan Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys barn annibynnol gan yr archwilwyr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd system reolaeth fewnol y sefydliad.

Cadarnhaodd yr archwilwyr mewnol i Ffocws ar Deithwyr wneud cynnydd sylweddol i sefydlu trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu cadarn. Cefnogwyd y farn honno gan y gwaith pellach a gynlluniwyd i ymgorffori prosesau rheoli risg ar draws y sefydliad ac i wella'r gweithdrefnau rheoli i leihau'r posibilïad o fod yn agored i risgiau penodol.

Rheoli risgiau

Mae'r fframwaith rheoli risgiau, yn ogystal â chofrestr risg y sefydliad, yn elwa ar y broses ganlynol:

- Adolygiadau rheolaidd o'r gofrestr risg
- Nodi risgiau allweddol pan gyflwynir materion gerbron y bwrdd i'w hystyried
- Cynnwys rheoli risg fel eitem reolaidd ar agenda'r pwyllgor archwilio
- Bwrdd rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried y cynlluniau gweithredol a chyfeiriad strategol y sefydliad
- Sicrhau bod gweithrediadau system reolaeth fewnol Ffocws ar Deithwyr yn cydymffurfio â phrif argymhellion adrannau'r llywodraeth megis Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OG) o ran arferion gorau.

Adolygu effeithlonrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithioldeb y system reolaeth fewnol. Cyfoethogwyd fy adolygiad o effeithioldeb y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a chan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol gan y pwyllgor archwilio ac mae cynllun ar waith bellach i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau gwella'r system yn barhaol.

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Mehefin 2006

TYSTYSGRIF Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ffocws ar Deithwyr (enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd) ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2006 dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Cyfrifoldebau priodol Swyddog Cyfrifyddu ac Archwiliwr Ffocws ar Deithwyr

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol, yr Adroddiad Tâl a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau'r Adran Drafnidiaeth a wnaethpwyd odani ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofyniadau cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, a'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU ac Iwerddon).

Adroddaf fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn darparu darlun cywir a theg ac a gaiff y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio eu paratoi yn unol â Deddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau a wneir o dan hynny. Cofnodaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso mewn pob ffordd faterol i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r adroddiad blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Ffocws ar Deithwyr wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad, neu os na ddatgelir y wybodaeth a ragnodir gan awdurdodau perthnasol ynghylch taliadau a thrafodion eraill.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 45 i 47 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Ffocws ar Deithwyr ag arweiniad Trysorlys ei Mawrhydi ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol, a chofnodaf os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw Datganiadau'r Swyddog cyfrifyddu ar reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a champau rheoli; nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ddod i farn ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Ffocws ar Deithwyr na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth hon ond yn cwmpasu'r rhan o'r Adroddiad Taliadau nas archwiliwyd, Sylwadau'r Rheolwyr ac Adroddiad y Prif Weithredwr. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol amlwg yn y datganiadau ariannol. Nid wyf yn gyfrifol am unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwiliad

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon), a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau sylweddol a wneir gan Ffocws ar Deithwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Ffocws ar Deithwyr, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i i ddarparu digon o dystiolaeth imi er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio yn rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll a bod y gwariant a'r

incwm, ym mhob ffordd faterol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ddod i'm barn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio.

Barn

Yn fy marn i

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan yr Adran Drafnidiaeth, o gyflwr materion Ffocws ar Deithwyr ar 31 Mawrth 2006 ac o'i ddiffyg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'u paratoi yn unol â Deddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan yr Adran Drafnidiaeth; a
- mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso ym mhob ffordd faterol i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

*John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP
26 Mehefin 2006*

CYFRIF INCWM A GWARIANT

AR GYFER Y CYFNOD YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2006

		2005-06	
	Nodyn	£000oedd	£000oedd
Incwm			
Cymorth Grant yr Adran Drafnidiaeth	2		3,912
Gwariant			
Costau staff	3	1,187	
Costau gweinyddol eraill	4	<u>2,755</u>	
			<u>3,942</u>
Diffyg gweithredol			(30)
Gwelliannau i'r brydles wedi'u dileu			(72)
Diffyg ar ôl eitemau eithriadol			<u>(102)</u>
Cost dybiannol cyfalaf	5		(11)
Diffyg ar weithgareddau gweithredu			<u>(113)</u>
Gyda'r gost dybiannol cyfalaf			11
Diffyg a drosglwyddwyd i'r Gronfa Incwm a Gwariant			<u><u>(102)</u></u>

Mae'r holl symiau'n ymwneud â gweithgareddau parhaol.

Nid oes gan Ffocws ar Deithwyr unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod ac eithrio'r diffyg a adroddwyd.

Mae'r polisiau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 53 i 59 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2006

		2005-06	
	Nodyn	£000oedd	£000oedd
Asedau Sefydlog			
Asedau diriaethol	6		269
Asedau Cyfredol			
Dyledwyr (sy'n ddyledus mewn blwyddyn)	7	135	
Arian yn y banc	9	648	
		783	
Cyfanswm asedau			
Credydwyr – cyfansymiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn	8	877	
		(94)	
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			175
Credydwyr – cyfansymiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn			-
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau			175
Ecwiti'r trethdalwyr :			
Cronfa Incwm a Gwariant	10		(94)
Cronfa Grant Llywodraeth	11		269
			175

Mae'r polisïau a'r nodiadau ar dudalennau 53 i 59 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Anthony Smith
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
 23 Mehefin 2006

DATGANIAD LLIF ARIAN

AR GYFER Y CYFNOD YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2006

	Nodyn	2005-06
		£000oedd
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol		909
Gwariant cyfalaf		
Caffael asedau diriaethol sefydlog		(269)
Cyllido		
Adennill benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol		8
Cynnydd mewn arian		<u>648</u>
Cymodi'r diffyg gweithredol â llifoedd arian gweithredol		
Diffyg gweithredol ar ôl eitem eithriadol		(113)
Cost dybiannol cyfalaf		11
Dibrisiad		23
Dirywiad parhaol yng ngwerth (Cynnydd) mewn dyledwyr		72
Cynnydd mewn credydwyr		(135)
Trosglwyddiad o Gronfa Grant y Llywodraeth		877
Trosglwyddiad i Gronfa Grant y Llywodraeth		269
		<u>(95)</u>
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol		<u>909</u>
Cysoni mewnlif arian net â symudiadau mewn cronfeydd net		
Cronfeydd net ar 25 Gorffennaf 2005		-
Cynnydd mewn arian yn y cyfnod		648
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2006	9	<u>648</u>

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 53 i 59 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL NOTES

1. Datganiad polisiau cyfrifyddu

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffordd a ffurfiwyd fel corff cyhoeddus anadrannol ar 24 Gorffennaf 2005 dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Deddfau Cwmnïau, Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, ac eithrio'r hyn a nodwyd yn nodyn 19 Cyfrifyddu Cydsoddiad , a safonau adrodd ariannol a gyhoeddwyd neu mabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, ac maent yn cydweddu â'r Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddrafnidiaeth ar 24 Mawrth 2006.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Ffocws ar Deithwyr isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y'u cyfrifir yn faterol i'r datganiadau ariannol.

1.1 Confensiynau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio'r gost hanesyddol, a newidiwyd i gynnwys ail-werthuso asedau sefydlog o ran eu gwerth i'r busnes wrth gyfeirio at eu costau presennol.

1.2 Asedau diriaethol sefydlog

Caiff gwariant ar asedau diriaethol sefydlog ei gyfalafu. Y lleiafswm ar gyfer cyfalafu asedau diriaethol sefydlog yw £2,500. Caiff asedau eu hail-werthuso'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

1.3 Dibrisiad/amorteiddiad

Darperir dibrisiad/amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog, ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu cost neu werthusiad, llai gwerth gweddilliol, yn gyfartal dros eu bywydau defnyddiol disgwylidig, fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodion 5 mlynedd
- Cyfrifiaduron 3 blynedd
- Offer arall 4 blynedd
- Gwelliannau i'r brydles cyfnod y brydles sydd ar ôl

1.4 Grantiau'r Llywodraeth

Mae'r Adran Ddrafnidiaeth yn darparu Cymorth Grant i wneud taliadau arian parod Ffocws ar Deithwyr sy'n ddyledus yn y flwyddyn ariannol. Mae Ffocws ar Deithwyr yn rhoi cyfrif am ei wariant ar sail cronïadau, fel hyn, mae'n mynd i rwymedigaethau yn ystod blwyddyn nad oes angen eu bodloni drwy daliadau arian parod tan flynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

Mae Cymorth Grant a ddefnyddir i brynu, gwella neu greu asedau sefydlog yn cael ei ddal ar y Fantolen o fewn Cronfa Grant y Llywodraeth a chaiff ei ryddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant wrth i'r asedau'n cael eu dibrisio.

1.5 Costau pensiwn

Ar ran eu pensiynau, mae gweithwyr cyflogedig wedi'u cynnwys yn narpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond ni all Ffocws ar Deithwyr nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2003. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau

Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk). Mae Ffocws ar Deithwyr yn gwneud taliadau i'r PCSPS ar gyfer rhwymedigaethau cronedig y Trysorlys o ran buddion Pensiwn ar gyfer pobl sydd wedi'u cyflogi yn y gweithrediadau a gyllidwyd, ac o ran y costau gweinyddol i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u gollwng.

1.6 Prydlesi gweithredu

Mae taliadau rhentu sy'n ddyledus dan brydlesi gweithredu'n cael eu talu gan y Cyfrif Incwm a Rental payments due under operating leases are charged to the Income and Expenditure Account on the basis of actual rentals payable which fairly reflects usage.

1.7 Capital charge

Mae tâl yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Ffocws ar Deithwyr. Mae'r gost wedi'i gyfrifo ar gyfradd y Llywodraeth o 3.5 y cant y flwyddyn ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2006, ar y gwerth cyfartalog i'w gario o bob ased llai pob rhwymedigaeth.

1.8 Treth

Nid yw Ffocws ar Deithwyr yn agored i dreth gorfforaeth nac unrhyw drethi eraill.

1.9 Balansau o fewn y Llywodraeth

Mae dyledwyr a chredydwyr o fewn y Llywodraeth wedi'u dadansoddi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi.

2. Cymorth Grant

	2005-06 £000oedd
Swm a dderbyniwyd ac a ryddhawyd :	
Adran Drafnidiaeth (DfT)	4,086
Trosglwyddiad i Gronfa Grant y Llywodraeth (Nodyn 11)	(269)
Trosglwyddiad o Gronfa Grant y Llywodraeth (Nodyn 11)	95
Cymorth Grant a ryddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant	<u>3,912</u>

3. Dadansoddiad o gostau a niferoedd staff

	2005-06 £000oedd
Dyma gyfanswm costau staff, gan gynnwys y prif weithredwr :	
Cyflogau	908
Costau Nawdd Cymdeithasol	83
Costau pensiwn (gweler isod)	174
	<u>1,165</u>
Staff asiantaeth	22
	<u>1,187</u>

Cynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond ni all Ffocws ar Deithwyr nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan Actiwari'r Cynllun ar 31 Mawrth 2006. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2005-06, roedd cyfraniadau cyflogwr o £174,000 yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 16.2 a 24.6 y cant o dâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyfan. O 2006-2007, caiff y bandiau eu hadolygu a bydd y cyfraddau rhwng 17.1 a 25.5 y cant. Mae cyfraddau cyfraniadau'n adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan eir i'r costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

	2005-06
	Nifer
Nifer cyfartalog y staff	
Staff a gyflogir yn barhaol	34
Eraill	1
	<hr/>
	35

Nodir manylion tâl aelodau anweithredol y bwrdd ac aelodau gweithredol y bwrdd rheoli yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 40 i 43.

4. Cost weinyddol a gwariant arall

	2005-06
	£000oedd
Costau gweinyddol	
Taliadau'r bwrdd	153
Teithio a chynhaliaeth, llogi ystafelloedd a recriwtio	389
Hyfforddi a datblygu	109
Rhent, ardrethi a chyfleustodau	195
Costau argraffu, post a'r swyddfa	102
Cymorth a chynnal a chadw technoleg wybodaeth	274
Costau Telathrebu	60
Gwasanaethau a chymorth allanol	503
Ymchwil teithwyr	912
Dibrisiad	23
Ffi archwiliad allanol	35
	<hr/>
	2,755

Mae'r costau sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn 25 Gorffennaf 2005, sef cyfanswm o £73,008, wedi'u talu gan Ffocws ar Deithwyr, ac maent wedi'u cynnwys yn y gwariant uchod. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi talu costau cyfanswm o £62,00 am rent, ardrethi a gwasanaethau ar gyfer y ddau fis ar ôl 24 Gorffennaf o ran y swyddfeydd a ddefnyddiwyd gan Ffocws ar Deithwyr. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y gwariant uchod. Mae'r grant a dderbyniwyd gan yr Adran Drafnidiaeth yn y cyfnod wedi'i addasu er mwyn adlewyrchu'r eitemau hyn.

5. Cost dybiannol cyfalaf

	2005-06
	£000oedd
Ar 3.5% y flwyddyn ar gyfartaledd cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau ar gyfer y cyfnod	11
	<hr/>

6. Asedau diriaethol sefydlog

	Gwelliannau i'r brydles £000oedd
Cost neu werthusiad	
Trosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol	95
Ychwanegiadau	269
Symiau a dilëwyd	(95)
Ar 31 Mawrth 2006	<u>269</u>
Dibrisiad	
Tâl ar gyfer y cyfnod	23
Symiau a dilëwyd	(23)
Ar 31 Mawrth 2006	<u>-</u>
Gwerth Llyfr Net	
Ar 31 Mawrth 2006	<u>269</u>
Ar 25 Gorffennaf 2005	<u>95</u>

Mae ychwanegiadau yn y cyfnod yn dangos gwelliannau yn eiddo ar brydles. Nid yw'r rhain wedi cael eu hail-werthuso ar 31 Mawrth oherwydd ymgymerydd â'r gwaith ar ddiwedd y cyfnod ariannol, felly ystyrir bod y costau uchod yn dangos y gost adnewyddu gyfredol.

Mae'r gwelliannau i'r brydles a drosglwyddwyd o'r SRA wedi'u dileu ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd nad oes eu hangen mwyach.

7. Dyledwyr

	2005-06 £000oedd
Dyledwyr eraill	11
Rhagdaliadau	124
	<u>135</u>

Mae dyledwyr eraill yn cynnwys benthyciadau i bedwar staff ar gyfer tocynnau tymor, sef cyfanswm o £3,321.

Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus gan endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan :

Balansau gyda chyrff eraill y Llywodraeth Ganolog	-
Balansau gydag awdurdodau lleol	18
Balansau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG	-
Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	80

8. Credydwy'r

	2005-06
	£000oedd
Credydwy'r masnachol	268
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	56
Cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy	31
Credydwy'r amrywiol	13
Croniadau	509
	<u>877</u>

Mae'r symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus i endidau eraill wedi'u: cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan :

Balansau gyda chyrrff eraill y Llywodraeth Ganolog	133
Balansau gydag awdurdodau lleol	-
Balansau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG	-
Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	5

9. Arian yn y banc ac mewn llaw

	2005-06
	£000oedd
Balans ar 25 Gorffennaf 2005	-
Net cash inflow	648
Balans ar 31 Mawrth 2006	<u>648</u>

Cynhelir balans y banc mewn banc masnachol.

10. Cronfa Incwm a Gwariant

	2005-06
	£000oedd
Balans ar 25 Gorffennaf 2005	-
Benthyciadau i staff a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (nodyn 19)	8
Diffyg ar gyfer y cyfnod	(102)
Balans ar 31 Mawrth 2006	<u>(94)</u>

11. Cronfa Grant y Llywodraeth

	2005-06
	£000oedd
Asedau a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (nodyn19)	95
Swm a ddefnyddiwyd i brynu asedau diriaethol	269
Llai : Trosglwyddiad i'r cyfrif Incwm a Gwariant Ar 31 Mawrth 2006	<u>(95)</u> <u>269</u>

12. Ymrwymadau dan brydlesi gweithredu

Dyma'r isafsymiau taliadau prydles y mae Ffocws ar Deithwyr yn ymrwymedig iddynt dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo ar gyfer y flwyddyn nesaf:

	Eiddo	Erail	2005-06
	£000oedd	£000oedd	Cyfanswm
O fewn blwyddyn	157	6	163
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	529	15	544
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-

Mae gan Ffocws ar Deithwyr drwydded i ddefnyddio swyddfeydd yn Llundain sydd wedi'u cynnwys fel ymrwymiad prydles oherwydd bod telerau ac amodau tebyg ganddynt.

13. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2006.

14. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Ffocws ar Deithwyr yn gorff anadrannol cyhoeddus a noddir gan yr Adran Drafnidiaeth ac fe'i hystyrir yn barti cysylltiedig. Er bod Ffocws ar Deithwyr yn gweithio gyda chwmnïau trên, ni ystyrir cwmnïau trên yn bartïon cysylltiedig.

Nid yw unrhyw aelodau'r bwrdd nac aelodau allweddol y staff rheoli wedi cael unrhyw gysylltiadau materol gyda Ffocws ar Deithwyr, oni bai am eu tâl, nac ei bartïon cysylltiedig yn ystod y cyfnod ac nid oes budd ariannol gan neb yn y cwmnïau trên a fyddai'n dylanwadu ar eu gwaith gyda Ffocws ar Deithwyr.

15. Rhwymedigaethau amodol, asedau a darpariaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol, asedau na darpariaethau amodol i'w hadrodd ar 31 Mawrth 2006.

16. Digwyddiadau wedi'r fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi'r fantolen i'w hadrodd hyd ddyddiad y dystysgrif archwilio.

17. Targedau ariannol

Nid oedd unrhyw dargedau ariannol a osodwyd gan yr Adran Drafnidiaeth yn ystod y cyfnod oherwydd iddo fod yn gyfnod trosiannol.

18. Offerynnau ariannol

Nid oes gan Ffocws ar Deithwyr unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu yn bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei ofyniadau ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo unrhyw adneuon materol, a chaiff yr holl asedau a rhwymedigaethau materol eu nodi mewn arian sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfraddau llog nac arian cyfred. Fodd bynnag, fel y caniateir dan yr FRS13, nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys dyledwyr a chredydwyr tymor-byr a fyddai'n dod yn ddyledus o ddyddiad y fantolen ac nid oes gwahaniaeth materol rhwng y gwerth ar bapur a gwerth teg asedau a rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2006.

19. Ffurio Ffocws ar Deithwyr

Mae'r cyfrifon hyn yn dilyn gofyniadau Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, ac eithrio lle mae'r arweiniad yn gofyn am ddefnyddio cyfrifyddu cydsoddi ar gyfer newidiadau 'Machinery of Government'. Byddai defnyddio cyfrifyddu cydsoddi ar gyfer creu Ffocws ar Deithwyr fel swyddogaeth ar wahân yn amhriodol gan y câ'r effaith o ddileu Ffocws ar Deithwyr o hanes ariannol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a datgan yn anghywir Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

Crynoir yr asedau a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol isod:

	£000oedd
Gwelliannau i swyddfeydd ar brydles	95
Benthyciadau i staff ar gyfer tocynnau tymor	8
	<hr/>
	103



© 2006 Passenger Focus

Freepost WA1521
Warrington
WA4 6GP

08453 022 022
www.passengerfocus.org.uk
info@passengerfocus.org.uk

Passenger Focus is the operating
name of the Rail Passengers Council